

ECO'R WYDDFA

RHIF 90

MAWRTH 1984

Pris: 20c

PEN-FFYLIAID Y FRO – AM YR AIL WAITH!



Dyma nhw — criw hapus a gweithgar Penisarwaun yn dal yn uchel darian pencampwyr y ffug-eisteddfod — a hynny am yr eildro yn olynol. Trowch i'r tudalennau canol.

CHWYTHWYR DAWNUS



Llongyfarchiadau i Iwan Gruffydd Williams, Hafle, Deiniolen ar ennill ar yr unawd dan 12 oed yng Nghymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Mhorthaethwy ar Chwefror 18. Cafodd 93 y cant o farciau am ei berfformiad o 'Cavatina'. Roedd 23 yn y gystadleuaeth.

Maelwan, sy'n 11 oed ac yn aelod o Seindorf Arian Deiniolen, yn ymddiddori yn y corn ers dwy flynedd. Dymuna ef a'i deulu ddiolch i bawb a fu'n ei hyfforddi.

Ar y dde mae Berwyn Owen, Trigfan, Llanrug a ddaeth yn ail allan o saith o gystadleuwyr ar yr unawd corn ym Mhorthaethwy. Mae'n 15 oed ac yn aelod o Seindorf Arian Llanrug. Llongyfarchiadau calonnog iddo yntau ar ei lwyddiant.



Llongyfarchiadau i Harri Jones, Cefn Rhyddallt, Llanrug ar ennill y gadair yn Eisteddfod Y Ffôr yn ddiweddar. Ysgrifennodd gerdd gynganeddol ar y testun 'Yr Alwad'. Roedd saith wedi cystadlu am y tlws a'r wobwr ariannol. Geraint Lloyd Owen oedd y beirniad.

Tua pum mlynedd yn ôl, pan oedd o a'i deulu yn byw yn Llanrwst y dechreuodd Harri ymhel â barddoniaeth. Mae wedi dod yn agos i'r brig mewn sawl eisteddfod leol ond dyma'r tro cyntaf iddo gipio'r brif wobwr.

Bydd yr ennill yn Y Ffôr, felly yn brofiad bythgofiadwy iddo ac yn gymorth iddo fynd ymlaen o nerth i nerth. Gobeithiwn hefyd y bydd yn gymorth iddo gael gwellhad llwyr o'r poenau cefn sy wedi bob yn ei lethu ers rhai wythnosau bellach.

TŶ'R EGLWYS YN DŶ TAFARN?



Mae cais cynllunio gerbron Adran Gynllunio Arfon i droi'r eglwys a thŷ'r Eglwys sy wedi bod yn wag ers tua dwy flynedd ym Methel yn dafarn. Partneriaeth y penseiri Allan a Willis o Fangor yw'r asiant a gyflwynodd y cais ar ran R. Willis — un o'r partneriaid.

Mae Adran Gynllunio Cyngor Arfon wedi gwneud ymholiadau ynglŷn â safle Eglwys Sant Teilo ac wedi ymgynghori â chyrff perthnasol fel adran Briffyrdd y Cyngor Sir a Chyngor Cymuned Llanddeiniolen. Ar ôl derbyn yr ymatebion, yna bydd y Prif Swyddog Cynllunio yn gwneud argymhelliad ar y cais i'r pwyllgor cynllunio.


Nid oes tafarn ym mhentref Bethel; mae'r un agosaf, 'Y Gors Bach' yn Llanddeiniolen, tua milltir i ffwrdd.

ANGEN CYMORTH I ASTUDIO'R TORGOC

Mae gwyddonwyr y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan yn awyddus iawn i gael cymorth y cyhoedd, yn arbennig y pysgotwyr yn eich plith, i astudio poblogaeth y torgoch yn Llyn Padarn.

Yn y tair wythnos cyn y Nadolig, daliodd Dr Alan Rogers a'i gydweithwyr o Uned Fwydeg y Gwasanaethau Gwyddonol — sef un o adrannau'r B.C.C.T. yn Llanberis — dros fil o'r pysgod prin yma — y rhan fwyaf ohonynt yn Afon Bala. Defnyddiwyd rhwydau arbennig, sef rhwydau 'fyke', i'r gwaith — a labelwyd pob pysgodyn. Mae pwrpas y labelu yn ddeublyg, sef, (i) i roi syniad o'r boblogaeth gyfan yn Llyn Padarn, a (ii) mesur maint a phwysau'r pysgod. Bydd y gwyddonwyr yn dal ac yn astudio'r pysgod unwaith eto, ddiwedd y flwyddyn.

Yr hyn sydd yn amlwg yn ystod y blynnyddoedd diwethaf yw fod y torgoch wedi tyfu o ran maint ar gyfartaledd, o 25 cm i 30 cm o hyd. Daliwyd un oedd yn 36 cm ac yn pwyso pwys a hanner. Yn gyffredinol roedd torgochiaid Padarn yn fwy pysgod na'r rhai a drigai yn Llyn Peris. Tybia Dr



Rogers fod hyn oherwydd fod mwy o fwyd maethlon iddynt yn y llyn mwyaf.

Er mwyn medru parhau â'u hymchwil mae Uned Fwydeg y B.C.C.T. wedi paratoi taflen wybodaeth am y torgoch ar gyfer y cyhoedd.

Yn yr haf mae'r pysgodyn yn debyg iawn i eog bychan — lliw arian, ond heb ysmotiau duon, er gall fod ysmotiau gwyn neu binc golau arno.

Mae manylion am y rhai a ddelir gan bysgotwyr yn angenrheidiol. Marciwyd rhai gyda disc werdd ac eraill gyda label fachog un ai yn safle A neu B (gweler llun ar dudalen 12). Gwthiwyd y label fachog i mewn un ai o'r chwith neu o'r dde ac y mae'n bwysig rhoi gwybod pa un. Defnyddiwyd amryw o wahanol fathau mewn lliw a ffurf o'r labelau hyn.

Os dowch o hyd i dorgoch a label arno, cewch 75 ceiniog amdano am ei gyflwyno (manyion isod), neu gellwch gyflwyno'r label yn unig gyda manylion fel ble roedd y label — A neu B, ar ba ochr i'r pysgodyn oedd y label fachog; hyd y pysgodyn a ble a phryd y'i daliwyd (telir 20c am hyn). Buasai'r cyflwyno'r pen, hyd yn oed, yn ddefnyddiol gan fod esgyrn clustiau'r pysgodyn yn dweud llawer wrth y gwyddonwyr am ei oed.

Parhad ar dudalen 12

EI GADAIR GYNTAF



ECO'R WYDDFA

RHIF 90
MAWRTH 1984

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwynndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwynndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
(Caernarfon 77163)

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd-
fadog, Deiniol (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf

o'r wasg

MAWRTH 29

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

MAWRTH 20

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

GWAITH NID CARDOD

Annwyl Olygydd,

Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus a
gynhaliwyd yn ddiweddar er mwyn
trafod pwnc defnydd Llyn Padarn,
teimlwn ei fod yn bwysig fod
trigolion Llanberis a'r cylch yn
ymwybodol o beth yn union a
fwriedir ar gyfer yr ardal.

Mae Llanberis a'r pentrefi cyfagos
yn bod oherwydd datblygiad gwaith
ar gyfer eu trigolion mewn
diwydiannau cynhyrchiol, byw. Arfer
y trigolion yw defnyddio'r llyn ar
gyfer eu hamdden eu hunain, ac ni fu
graddfa'r defnydd hwnnw'n gymaint
ag i achosi i'r perchnogion ei
wahardd neu'i gyfundrefnu. Yn awr
mae'r diwydiannau fu'n gyfrifol am
adeiladu Llanberis, chwarelyddiaeth
yn arbennig, wedi colli'u gallu i
gyflogi; mae yna wagle na fedr
cymunedau fyw ynddo. I'r gwagle
hwn mae nifer o gyrff a chynghorau'n
gwtio'r fasnach dwristiaeth. Cyrff
fel y Bwrdd Croeso (a chwmniau
masnachol hefyd) oherwydd fod
angen maes chwarae ar Lerpwl a
Manceinion, a modd i unigolion elwa
ar gorn hynny; a chynghorau lleol
oherwydd fod aelodau a swyddogion
wedi anobeithio ynglŷn â'r dyfodol,
ac wedi cymryd eu bachu gan
addewidion gwaith a ffyniant pe
cytunent i hybu'r fasnach ymwelwyr.

Nid doeth credu'r addewidion hyn.
Ni all y fasnach dwristiaeth anwadal
fyth gyflogi ar raddfa ddigonol, ac o'r
ychydig weithwyr 'llafur rhad' sydd
eu hangen arni, nid oes rhaid iddynt
fod yn bobl lleol. Mae hefyd yn medru
rhwystru diwydiant cynhyrchiol rhag
datblygu mewn ardal ('rhag difetha'r
olygfa'), ac mae digon o dystiolaeth
fod y fasnach yn achosi niwed difrifol
i iaith, diwylliant, cartrefi, masnach a
gwasanaethau'n cymunedau yn
ogystal â chloffi cyflogaeth. Mae'r
ddadl fod yn rhaid cael mwy o
dwristiaeth er mwyn ffyniant ardal yn
un ffug: mae llawn mor debygol o
wanhau'r gymuned a'i throi'n
adfeilion ag yw'r diffyg cyflogaeth
presennol. Nid twristiaeth neu ddim
yw'r dewis, er mor awyddus yw rhai
inni gredau hynny; y dewis yw rhwng
cyflogaeth wedi'i seilio ar fentrau
cynhyrchiol lleol neu ddiwedd
Llanberis trwy gyfuniad o
ddiweithdra a gorddibyniaeth ar
ymwelwyr.

Arwyddocad y cynlluniau
diweddaraf felly yw eu bod yn
cyfundrefnu defnydd o'r llyn, gan fod
gwahanol berchnogion ac
awdurdodau eisiau hybu twristiaeth
hyd yr eithaf. Amddifadu pobl y fro
o'u hawliau arferol yw'r cam cyntaf
tua meddiannu ardal gyfan yn enw'r
fasnach ymwelwyr, a thrwy hynny
amddifadu pobl o'u hetfeddiaeth a'u
dyfodol. Nid gormodiaith hyn; mae
llygaid y Bwrdd Croeso ac eraill ar
Llanberis fel rhywle y gellir ei
dddefnyddio ar gyfer eu dibenion hwy,
a chynlluniau ar gyfer datblygiad
chwyddedig yng Nglynrhonwy
eisoes ar y bri. Dewised pobl
Llanberis felly: yntau wynebu bywyd
fel haflug o ychydig werthwyr
tocynnau a doliau Cymraeg, neu
mynnu bod ein cynghorau lleol yn
mynd ati o ddifri i hybu sefydlu
mentrau cynhyrchiol a allasent
gyflogi ar raddfa ddigonol. Mae'r un
dewis yn wynebu degau o
gymunedau eraill ledled y Fro
Gymraeg; felly ymwrthodwn â
thwristiaeth, dywedwn wrth y cyrff
a'r cynghorau nad ydym ar werth:
'Rhowch inni waith, nid cardod'.

Howard Huws,
Llefarydd Mudiad Adfer ar
Dwristiaeth.

MEWN UNDEB MAE NERTH

Annwyl Olygydd,

Dyddiau caled iawn yw'r rhai
presennol i ni'r Cymry—yn faterol, yn
wleidyddol, yn ddiwylliannol a
ieithyddol. Efallai na fydd llawer o
gysur yn deillio o'r sylweddoliad nad
ein gwlad ni yn unig sy'n dioddef.
Eto, credaf y dyllem dderbyn hwb i'r
galon a rhagor o wynt i'r hwyliu
drwy gydweithredu â'r gwledydd
bychan yma, yn arbennig ein
cymdogion daearyddol a'n cefndryd
diwylliannol. Mae'r gwledydd
Celtaidd oll o dan ddylanwad
gweddillion ymerodraethau a fu
unwaith yn rymus a phwerus, ond
sydd bellach yn gwasgu eu
crafangau am eu trefedigaeth olaf.
Gallem oll dorri'n rhydd o afaeliad y
crafangau drwy gydweithio a
defnyddio holl adnoddau ein
gwledydd er lles ein pobl ein hunain.

Sefydlwyd yr Undeb Celtaidd dros
ugain mlynedd yn ôl i hybu'r
amcanion yma. Mae llawer o
lwyddiannau wedi eu sicrhau ym
myd diwylliant, ond yn awr mae'n
orfodol i ni bwysu ymlaen i ennill yr
un llwyddiannau mewn
gwleidyddiaeth. Mewn undeb mae
nert.

Estynnaf yma wahoddiad i'ch
darllenwyr i ymuno â ni yn y frwydr
dros einioes ein cenedl. Am £4 y
flwyddyn cewch ymaelodi â Changen
Cymru, a derbyn ein cylchgrawn
chwarterol drwy'r post. Meddyliwch
yn ddwys am gryfder y chwe gwlad
Geltaidd fel uned nerthol, ac rwy'n
bendant y byddwch am ymestyn eich
cefnogaeth i ni.

Yr eiddoch yn wlatgar,

Ian Llyfni,
Ysgrifennydd.

CAE CHWARAE

Annwyl Syr,

Hoffwn ateb llythyr Mr Gwyn
Oliver Jones oedd yn eich rhifyn
diwethaf o'r 'Eco'.

Nid wyf yn gwybod faint o
drafodaeth sydd wedi bod gan
Gyngor Sir ynglŷn â chael y Cae
Chwarae ysoniodd amdano, ond
mae un peth yr wyf yn gwybod
mai yn nechrau 1980 gafodd
Cyngor Arfon gais gan y Cyngor
Sir i'r ddau Gyngor brynu tir i
gael Cae Chwarae i'r ysgol a'r
pentref.

Ym mis Awst prynwyd cae ar
gyfer yr ysgol a'r pentref.

Bychan oedd y cae yn y
dechrau, ond erbyn hyn y mae'n
dipyn yn fwy o faint gan fod yna
rhywfaint o waith wedi cael ei
wneud arno.

Gobeithir cael 'polion gôls'
yn ystod yr wythnos neu'r
pythefnos nesaf. Y mae'r cae yn
ddelfrydol i blant yr ysgol, ac i'r
tîm sydd yn y pentref o blant o
dan un ar bymtheg oed.

Efallai fydd y cae yn ddigon
mawr ar gyfer y tîm arall sydd yn
y pentref sydd yng nghynghrair
Arfon, y mae angen ei fesur yn
iawn. Y mae'n ddirlgelwch i mi
nad yw Mr Gwyn Oliver Jones yn
gwybod am y cae chwarae yma.
Efallai ei fod wedi gwneud Rip
Van Winkle!

Jacob James,
Cynghorydd Arfon
Regent House,
Deiniolen

APÊL AR RAN EIN MYFYRWYR

Annwyl gyfaill,

Mae'n debyg eich bod yn gwybod
ein bod ni wedi penderfynu ffurfio
undeb myfyrwyr annibynnol yma yn
Aberystwyth eleni oherwydd ein
bod yn credu nad oedd yr undeb
Saesneg yn amddiffyn buddiannau'r
Cymry Cymraeg. Un canlyniad i
hyn yw nad ydym yn awr yn derbyn
unrhyw gymorth ariannol o'r swm
sy'n cael ei glustnodi i undebau
myfyrwyr gan gynghorau sir, dim
ond tâl aelodaeth gwirfoddol o £10.
Credwn fod hyn yn annheg ac
anfodddhaol oherwydd fod y
cynghorau sir yn gwneud cyfraniad
sylweddol i gronfeydd undebau
myfyrwyr. Llynedd roedd y
cyfraniad hwn yn £50 y pen. Pe
buasem yn parhau i dderbyn hyn
dyma'n fras fuasai cyfraniad y
siroedd:

Dyfed	£ 3,700
Gwynedd	£ 2,900
Clwyd	£ 2,250
De Morgannwg	£ 1,150
Gorllewin Morgannwg	£ 1,150
Morgannwg Ganol	£ 550
Powys	£ 300
Gwent	£ 100
Eraill	£ 900

Cyfanswm £12,250

Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr
fod rhan o'n trethi sydd yn mynd
tuag at addysg yn cael ei roi i'r
myfyrwyr Saesneg nad oes
ganddynt unrhyw gysylltiad â'r
siroedd hyn. Erfyniwn ar y
darllenwyr i bwysu ar y cynghorwyr
a'r cynghorau i unioni'r cam hwn ac
i sicrhau fod eu harian yn cael ei
wario ar y myfyrwyr sydd yn dod o'u
hardaloedd.

Yr eiddoch yn gywir,

William Gwyn Jones.

Trysorydd, Undeb Myfyrwyr
Cymraeg Aberystwyth.

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR

Gair yw hwn, ar ran y Gymdeithas
uchod, i egluro'r bwriad sydd
gennym o geisio cryfhau'r diddordeb
yn ein gweithgareddau yn lleol.

Fel y gwyrddoch, pwrpas y
Gymdeithas yw ehangu diwylliant ac
addysg drwy gynnal cyrsiau,
darlithoedd unigol, ysgolion undydd
etc. ar gyfer oedolion. Mae gennym
amryw o ddosbarthiadau yng
nghylch Caernarfon, rhai ohonynt
mewn bod ers blyneddau lawer.

Fe hoffem yn fawr fedru cryfhau'r
cyswllt rhwng y dosbarthiadau hyn,
ac o bosibl ffurfio cangen o'r
Gymdeithas yng Nghaernarfon a'r
cylch, fel sydd gennym mewn rhai
ardaloedd. Gallai nifer o
ddosbarthiadau y gwahanol bentrefi
wedyn ymuno â'i gilydd o dro i dro i
gynnal rhai gweithgareddau ar y cyd.
Byddai hefyd yn gyfle da i'r aelodau
gyfarfod i drafod syniadau newydd
ynglŷn â gwaith.

Gyda hyn mewn golwg, rydym yn
estyn gwahoddiad cynnes iawn i
swyddogion ac aelodau ein
dosbarthiadau, ac yn wir i unrhyw un
sydd â diddordeb yn ein gwaith, i
ddod i gyfarfod yn Yr Ystafell
Gymuned, Llyfrgell Arfon Dwyfor,
Caernarfon, nos Wener, Mawrth 9,
am 7.30.

Byddwn yn ddiolchgar iawn am
bob cefnogaeth. Os ydych am fwy o
wybodaeth gellir cysylltu ag Ifor
Baines (Athro-Drefnydd) — ffôn:
Penygroes 881328.

DOLEN CYMRU

Annwyl Gyfeillion,

Mae 'Dolen Cymru' yn ymddiriedolaeth gyda'r amcan o bontio'r agendor rhyngom ni ac un o'r 'Gwledydd Lleiaf Datblygedig' yn y byd.

Mae agendor cynyddol rhwng gwledydd breintiedig y 'Gogledd' a gwledydd llai datblygedig y 'De' yn cynnig llawn cymaint o botensial o ansefydlogrwydd i'r byd ag unrhyw wahaniaethau gwleidyddol rhwng y 'Gorllewin' a'r 'Dwyrain'.

Mae'r 'Gwledydd Lleiaf Datblygedig', 36 ohonynt i gyd, wedi eu diffinio gan Sefydliad Iechyd y Byd fel y rhai mwyaf angenus — y tlotaf o'r tlawd.

Bydd y ddolen rhwng Cymru ac un o'r gwledydd hyn yn gyfrifol am ddod â dwy wlad o gefndir gwahanol at ei gilydd mewn dealltwriaeth a chyfeillgarwch.

Cryfheir y ddolen rhwng y ddwy wlad fel bod y naill yn dysgu oddi wrth y llall am ei dyheadau, ei phobl, hanes, diwylliant, addysg ac economi a hynny rydym yn gobeithio gweld ei wireddu drwy gysylltiadau a chyfnwidiadau.

Credwn y bydd ein cefndir ni yng Nghymru yn ein galluogi i fod yn sensitif a deallus o'r problemau mae'r wlad arall yn ei hwynebu a bydd unrhyw berthynas yn fwy arwyddocaol fyth.

Hoffwn gael gwybod gan ddarllenwyr am eu syniadau nhw ynglŷn â'r wlad mwyaf addas ar gyfer dolen o'r fath.

Bydd rhaid i'r wlad fod yn gymharol fach o ran tiriogaeth a phoblogaeth ac o fewn pellter rhesymol i Gymru.

Dylid cyfeirio unrhyw awgrymiadau at gyd-ystrifennydd yr ymddiriedolaeth — Paul Williams, 11 Min Menai, Bangor.

Yr eiddoch yn gywir,
Y Meddyg Carl Iwan Clowes,
Cadeirydd DOLEN CYMRU,
Y Wigoedd,
Rhoscefnhir,
Pentraeth,
Môn.

GŴYL LAFUR

Annwyl Olygydd,

Cynhelir Gŵyl Lafur Bangor brynhawn Sadwrn, Ebrill 28, a charwn wahodd eich darllenwyr oll i ymuno yn y dathlu.

Mae Allan Fisher, cyn-ystrifennydd cyffredinol NUPE, eisoes wedi derbyn ein gwahoddiad i annerch cyfarfod sydd i'w gynnal am 3 o'r gloch ar y dydd yn Neuadd y Santes Fair nepell o Glyn House.

Er mwyn cyrraedd mewn da bryd, byddwn yn ymgynnull ger Neuadd y Dref ac yn cychwyn gorymdeithio trwy strydoedd y Ddinas am 2 o'r

gloch.

Bydd mwy o fanylion ar gael yn y man.

Yr eiddoch yn gywir,
Dafydd Llewelyn-Jones,
Ysgrifennydd Is-Bwyllgor Gŵyl Lafur Bangor,
76 Hill St,
Bangor.

EWYLLYS OD

Annwyl Syr,

Daeth i'm meddiant yn ddiweddar lyfryn Saesneg yn rhestru digwyddiadau amheuthun o fewn yr Ynysyoedd hyn.

Mewn un man, fe sonnir am foneddiges a gladdwyd yn Llanrug ym 1895.

Roedd hi wedi cyflwyno ei bywyd i hela llwynogod meddir, ac yn unol â'i hewyllys, claddwyd hi yn ei diwyg hela. Llosgwyd y gweddill o'i dillad, ac hefyd ei cherbydau, a saethwyd ei meirch (oeddent chwech).

Am gadw telerau'r ewyllys, etifeddodd ei gŵr £90,000.

Pwy oedd hi tybed?

John Williams,
Y Gors,
Allt Riwth,
Ponrhythallt.

Mae cais tebyg wedi ymddangos yn yr Eco'n barod. Credir mai gwraig yn byw yn yr Hafod ydoedd. (Gol.)

LLUNIAU'R CHWARELWYR

Annwyl Syr,

Dyma atebiad i Mrs Laura Harrison, Cynlas, Bro Gethin, Betws-y-coed, oedd wedi anfon llun o'r chwarel i'r Eco. Y bonc ydyw Pen-y-Diffwys, a'r flwyddyn tua 1935-36. Rwyf am arfer yr enwau oedd gennym ar y bonc. Y rhes ôl, yr ail o'r chwith, Eifion (Bonc), pedwerydd Sion Rap (Perisfab), chweched Robin Tŷ Mawr, seithfed Now Humphreys, Tom Ellis a John Moi. Y rhes flaen, John Rhafon, John Ellis (Cwm), Robin, Hugh, Tom Owen, Tri brawd o Lanberis, a Wil Tyn-y-Ffynnon yn ei canol, Tom Blaen-y-Nant, Llew Bach (Sir Fôn) ac Alec o'r Waunfawr. Rwyf wedi colli cof o enwau tri yn rhes ôl, ac un yn y rhes flaen, ac mae'n ddrwg gennyf am hyn. Rydym yn derbyn yr Eco, oddi wrth lanto a Margaret Llanrug bob mis, ac yn falch iawn amdano.

Yn gywir,
John Ellis
55 Netherhall Way,
Cambridge.

APÊL CYMDEITHAS THEATR CYMRU

Annwyl Gyfaill,

Sefydlwyd Cymdeithas Theatr Cymru ym 1967 i gefnogi a hyrwyddo y gelfyddyd ddramatig yn yr iaith Gymraeg. Mae'n gorff cwbl annibynnol, yn elusen cofrestredig gyda'i chyfansoddiad, ei swyddogion a'i chyllid ei hun.

Ymatebodd y Gymdeithas yn gadarnhaol a chyflym i drafferthion presennol Cwmni Theatr Cymru trwy:

- (a) gyfrannu arian parod ar fyrder i sicrhau parhad taith Panto 84
- (b) edrych ymlaen yn obeithiol a chomisiynu drama gan ddramodydd adnabyddus.

Yn ogystal, dechreuodd y Gymdeithas gynllun i feithrin ac annog dramodwyr ieueianc newydd.

Wrth edrych ymlaen at y dyfodol mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bodolaeth cwmni theatr genedlaethol sydd yn gweithredu yn y Gymraeg. Bydd ei ddyfodol yn sicrach os yw'r Gymdeithas hon o gyfeillion yn gryf o ran cyllid yn ogystal ag o ran nifer.

Apeliwn arnoch, felly, i ddangos cefnogaeth trwy gyfrannu i Gronfa arbennig y mae Cymdeithas Theatr Cymru wedi ei sefydlu.

Bydd pob cyfraniad yn wirioneddol bwysig ac yn gaffaeliad pendant. Bydd cronfa sylweddol hefyd yn erfyn grymus i sicrhau bodolaeth a ffyniant theatr genedlaethol.

Os ydym yn disgwyl i'r Wladwriaeth roi nawdd teilwng i'r theatr genedlaethol mae'n rhaid i ni, y Cymry Cymraeg, ddangos iddynt ein bod yn gefnogol iddi ac yn frwd trosti. Bydd eich enw cyn bwysied â maint eich cyfraniad.

Pwysleisiwn mai cronfa at ddyddiau gwell y dyfodol yw hon ac nid un i liniaru argyfwng presennol Cwmni Theatr Cymru.

Anfonwch eich cyfraniad i mi, Y Barnwr Dewi Watkin Powell, Cronfa Apêl Cymdeithas Theatr Cymru, d.o Banc y National Westminster, Stryd Fawr, Cricieth, Gwynedd LL52 OBS. Rhif y cyfrif yw 07019815. Cydnabyddir eich cyfraniad.

Gan ddiolch i chwi ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir,
Dewi Watkin Powell
Llywydd

DIOLCH I AELODAU GWLITH



DIOLCH: Mae Dafydd Price, Tan-y-graig, Cwm-y-glo yn dymuno diolch, drwy gyfrwng yr Eco, i aelodau'r grŵp 'Gwlith' am roi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim ym mharti Nadolig y plant yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Roedd canu gwych y genod yn gymorth aruthrol i sicrhau llwyddiant i'r parti a mawr oedd gwerthfawrogiad y plant a'u rhieni. Ein dymuniad ninnau, wrth gyflwyno diolchiadau Dafydd i'r grŵp, yw diolch iddo yntau hefyd am ei waith mawr yn paratoi'r parti.

BARA CAWS

Cynhyrchiad diweddaraf Bara Caws yw 'Y Fodrwyl' a gall trigolion bro'r Eco ei weld un ai yn Ysgol Brynrefail, Llanrug nos Lun Mawrth 12 neu yn Neuadd yr Eglwys Waunfawr nos Fawrth, Mawrth 13—y ddau berfformiad yn dechrau am 7.30.

Y tro hwn mae Bara Caws wedi dewis gwneud sioe sy'n ceisio taflu goeluni ar y stâd briodasol, stâd mae Margaret Thatcher yn un, yn awyddus i'w hamddiffyn. Nid gwaith anodd yw anghytuno â Phrif Weinidog sy'n ceisio cynnal y status quo, ond be sy'n cael ei ddarganfod o dan y chwyddwydr? Faint o wirionedd, er enghraifft, sydd i'r gosodiad fod 'na gariad pur oes oesol yn ein disgwyl ni gyd. Onid stori dylwyth teg mohono?

Dyma'r actorion: Cefin Roberts, Siân Wheldon, Bryn Fôn, Valmai Jones, Robin Griffith, Bethan Jones, Dewi Rhys, Iola Gregory. Y cynhyrchiad yw Siôn Humphreys. Gwylwch y posteri.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLAU SENGL O £39 I FYN
GWLAU DWBL O £75 I FYN

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
— ALLWCH CHI FFFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

DYFODOL LLYN PADARN

MEWN Cyfarfod Cyhoeddus – stormus ar brydiau – yng Ngwesty Victoria, Llanberis, nos Fawrth, Chwefror 14eg dangosodd ardalwyr Llanberis a'r fro fod ganddynt ddiddordeb byw ym mwriadau'r Awdurdod Dŵr i ddatblygu Llyn Padarn ar gyfer gwahanol weithgareddau adloniadol. Roedd Ystafell Dinorwig yn orlawn i wrando ar Mr Philip Parkinson o Awdurdod Dŵr Cymru yn trafod yr argymhellion ynglŷn â rheolaeth Llyn Padarn.

Cadeiriwyd y Cyfarfod Cyhoeddus gan y Cyngorydd Brian Jones, ond cyn cychwyn, cyflwynwyd petisiwn yn cynnwys dros 2,700 o enwau yn gwrthwynebu'r argymhellion (a gyhoeddwyd yn yr 'Eco' fis diwethaf) gan y Cyngorydd Francis Jones i Mr Philip Parkinson. Wrth gyflwyno'r petisiwn, dywedodd y Cyngorydd Francis Jones ei fod yn ymwrthod â'r argymhellion yn llwyr. Aeth ymlaen i eglurosut ybui genedlaethau bobl yr ardal fwynhau'r defnydd o Lyn Padarn yn ddi-dâl; a themlai fod yr Awdurdod Dŵr yn ceisio gwtio'r rheolau ar y cyhoedd heb roi digon o wybodaeth iddynt ynglŷn â'u bwriadau.

Yn ei anerchiad, dywedodd Mr Philip Parkinson ar ran yr Awdurdod Dŵr, eu bod "yn sensitif iawn i farn y cyhoedd" a bod "cryn gamddealltwriaeth wedi bod" ynglŷn â'r argymhellion. Eglurodd nad oedd y perchnogion wedi gwneud "unrhyw benderfyniad pendant" ac nad oedd y "stori'n llawn wedi ei hegluro".

Aeth ymlaen i egluro'r cefndir i'r holl ddigwyddiadau. Mae Llyn Padarn wedi ei rannu rhwng chwech o berchnogion:

Awdurdod Dŵr Cymru; sy'n berchen tua hanner y llyn, sef y gyfran a brynwyd ganddynt oddi ar hen Stâd y Faenol;

Cyngor Bwrdeistref Arfon; Elusennau Tlodion Rhuthun; Stâd Glynllifon; Comisiynwyr Stâd y Goron a Mr L. Griffith.

Hawl ar wely'r llyn sydd gan y perchnogion, ond yn gyfreithlon mae angen caniatâd y perchnogion cyn i unrhyw un groesi ar wyneb y llyn. O fewn y gyfraith nid oedd unrhyw hawliau'n bod gan y cyhoedd i ddefnyddio wyneb y llyn, ond oherwydd fod diffinio terfynau'r gwahanol berchnogion yn anodd, nid oedd aelodau o'r cyhoedd erioed wedi cael eu gwahardd rhag gwneud defnydd o'r llyn. Yr unig reolaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yw'r rheini yn ymwneud â physgota, ac aeth Mr Parkinson ymlaen i egluro hynny.

Yn 1974 rhoddwyd lês gan yr Awdurdod Dŵr i Gymdeithas Bysgota Seiont, Gwryfai a Llyfni am 21 mlynedd gyda'r dewis o barhau y lês am 21 mlynedd ychwanegol hyd y flwyddyn 2016. Deëllir hefyd fod y Gymdeithas Bysgota yn rhentu hawliau pysgota yn flynyddol gan Stâd Glynllifon a Chomisiynwyr Stâd y Goron.

Eglurodd Mr Parkinson pam mai'r Awdurdod Dŵr oedd yn gyfrifol am ddrafftio'r argymhellion gwreiddiol. Dywedodd fod y cyfrifoldeb wedi ei osod ar bob Awdurdod Dŵr gan Ddeddf Dŵr 1973 i hybu'r defnydd gorau o bob llain o ddŵr er mwyn defnydd adloniadol gan y cyhoedd. Dywedodd fod Llyn Padarn yn un o'r ychydig lynnoedd yng Nghymru oedd yn amlwg yn cynnig ei hun fel

ardal ddatblygu adloniadol. Ac o ystyried fod y llyn wedi ei leoli yng nghanol bro oedd yn hynod boblogaidd ym myd twristiaeth, credai ei fod yn ddyletswydd hybu'r defnydd gorau o'r llyn ar gyfer defnydd pawb.

Dyna a arweiniodd i ddrafftio cynllun rheoli adloniadol i'r llyn ym mis Hydref 1981 – a hynny rhwng Awdurdod Dŵr Cymru a'r perchnogion eraill. Ym mis Ionawr 1982 cyfarfu'r perchnogion yn Oriel Eryri i drafod y ffiniau 'artiffisial' oedd yn bod i'r llyn. Dyna, meddai Mr Parkinson pryd y dadlennwyd cynlluniau Cyngor Bwrdeistref Arfon ynglŷn â'r datblygiadau ar safle'r Glyn – datblygiadau sydd bellach wedi eu cwblhau.

Galwyd Cyfarfod Cyhoeddus ym mis Ebrill 1983 yng Ngwesty Victoria, Llanberis pryd y ffurfiwyd 'Pwyllgor Rheoli' ynglŷn â rheolaeth Llyn Padarn. Roedd aelodau'r Pwyllgor Rheoli hwn yn cynrychioli pawb oedd â diddordeb ynglŷn â dyfodol y llyn, gan gynnwys y perchnogion, cynrychiolwyr gwahanol gymdeithasau yn ymwneud â hwylio, canwio, hwyfordio ac yn y blaen; y Cyngor Chwaraeon, a Chynghorau Cymdeithas Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug. Cyfarfu'r Pwyllgor Rheoli hwn am y tro cyntaf ym mis Mehefin 1983, ac ers hynny, gofynnodd y perchnogion i'r Awdurdod Dŵr edrych ar reolaeth gwahanol lynnoedd eraill ym Mhrydain. Bu'r Awdurdod Dŵr yn gwneud hynny, gan astudio dulliau rheoli amryw o lynnoedd, e.e., Rutland – cymharu'r dulliau o ganiatáu gweithgaredd mor amrywiol â physgota a hwyfordio ar yr un llyn.

O ganlyniad i'r astudiaethau hyn, anfonodd yr Awdurdod Dŵr ddrafft o gynlluniau rheoli Llyn Padarn i'r perchnogion ar Ionawr 13eg eleni. Argymhellion oedd y rhain er mwyn i'r perchnogion fedru eu trafod cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Rheoli, ond roedd cynnwys y llythyr wedi ei wneud yn wybyddus i'r cyhoedd a dyna oedd yn gyfrifol am yr holl sylw a roddwyd i'r mater yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos.

Gan y disgwylir gwrthwynebiad i'r argymhellion gwreiddiol, roedd yr Awdurdod Dŵr eisoes wedi drafftio argymhellion eraill, a byddai'r ail ddrafft hwn yn cael ei drafod gan y perchnogion a'r Pwyllgor Rheoli cyn dod i unrhyw benderfyniad pendant.

Galwodd y Cyfarfod Cyhoeddus ar i'r trafodaethau hyn a'r argymhellion yn deillio ohonynt gael eu cyhoeddi yn y wasg leol cyn unrhyw gyfarfod cyhoeddus arall. Byddai hyn yn rhoi cyfle i unrhyw aelod o'r cyhoedd gael amser i ystyried yn fanwl yr hyn y bwriedid ei wneud ynglŷn â Llyn Padarn.



ARGYMHELLION YR AIL DDRAFFT

Dyma'r argymhellion a amlinellwyd yn yr Ail Ddrafft (dyddiedig Chwefror 10ed, 1984).

RHAGARWEINIAD

Er bod perchnogion Llyn Padarn yn dymuno i bobl fwynhau'r cyfleusterau'n llawn, eto'i gyd, gofynnwn iddynt roi ystyriaeth i eraill sy'n defnyddio'r dŵr, y glannau a thraethau'r llyn mewn gweithgaredd adloniadol.

Un o'r pethau sy'n achosi pryder yw darpariaeth cyfleusterau diogelwch. Pe bai gwasanaeth achub yn cael ei ddarparu, yna byddai angen dau gwch a chriw i gadw golwg ar y llyn, a byddai'r gost o ddarparu gwasanaeth o'r fath yn cael ei godi ar y defnyddiwr; ac yn naturiol yn gwneud hwylio cychod o bob math y tu hwnt o ddrud neu yn cyfyngu ar y mathau o fadau y gellid eu defnyddio, ac felly'n difetha'r mwynhad i lawer iawn o bobl.

Mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan mewn unrhyw fath o adloniant ar y dŵr dderbyn felly, NA FYDD GWASANAETH ACHUB O UNRHYW FATH YN BOD. Mae'r llyn yn ddarostyngedig i hyrddwyntoedd sydyn a all gyrraedd nerth corwynt mewn ychydig funudau. Yn ychwanegol, oherwydd lleoliad ac uchder y llyn, a'r amgylchiadau oerllyd yn aml sy'n bodoli, cynghorir defnyddwyr i wisgo siwtiau gwlyb.

Mae'r rheoliadau canlynol yn nodi'r rheolau gweithredol. Ni chaniateir unrhyw fâd ar Lyn Padarn os nad yw'n cydffurfio â'r rheoliadau. Nid ydynt yn feichus, ac fe'i lluniwyd mewn cyd-ymgyngoriad â phobl brofiadol.

RHEOLIADAU CYCHOD

1. Hawlen

- 1.1 Ni chaniateir lansio unrhyw fâd os nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau a bod yr hawlen addas wedi ei phrynu.
- 1.2 Rhaid dangos yr hawlen ar gais gan gynrychiolydd awdurdodedig y Perchnogion.

2. Lansio

- 2.1 Rhaid i bob canw a chwch gael ei lansio o safle'r 'Glyn' os na

roddwyd caniatâd ysgrifenedig gan y Perchnogion i drefniadau lansio eraill.

- 2.2 Am resymau o ddiogelwch, ni ddylid lansio hwyfordiau o safle'r 'Glyn'. Mae'r lanfa ger Oriel Eryri yn cael ei chymeradwyo i'r pwrpas hwn.

3. Diogelwch

- 3.1 Dylai pob dingi a chanw gynnwys hynofedd (buoyancy) yn ddiogel i gynnal bâd wedi troi gydag un neu ragor i mewn ynddo.
- 3.2 Mae pob person yn cael ei gynghori i wisgo Siaced Achub mewn bâd ar y dŵr.
- 3.3 Mae pob morwr dingi, hwyfordwr a chanwydd yn cael ei gynghori i wisgo siwt wlyb oherwydd fod dŵr y llyn fel arfer yn oer.
- 3.4 Dylai pob un sy'n defnyddio badau o unrhyw fath fod yn gyfarwydd â dulliau hunan-achub.
- 3.5 Dylai pob defnyddiwr benderfynu os yw'r amgylchiadau'n addas cyn lansio ei fâd. Os yw'r amgylchiadau'n gwaethygu, cyfrifoldeb y badwr yw delio â hyn, ac os yw'n rheidrydd, i wneud ei ffordd tua'r lan agosaf i lanio'r bad.
- 3.6 Ni chynghorir plant i fynd â bâd ar y llyn heb arolygaeth addas a digonol.

4. Amserau defnyddio cychod.

Caniateir hwylio cychod yn ystod oriau golau dydd yn unig.

5. Pysgota/Hwylio cychod.

- 5.1 Dim ond personau sydd â meddiant hawlen bysgota ddilys a thrwydded sydd â hawl i bysgota o gwch.
- 5.2 Ni chaniateir i unrhyw fâd ddod o fewn 30 llath i unrhyw fâd arall sy'n pysgota, a rhaid cadw'r un pellter oddi wrth bysgotwyr ar y glannau.
- 5.3 Dim ond cychod yn cynnwys pysgotwyr fydd â hawl i groesi llinell o fwis (buoys) ym mhen gogledd-orllewinol y llyn. Mae'r rhan hon o'r llyn wedi ei gadw'n gyfan gwbl i bysgota.


6. Llygredd

Ni chaniateir tywallt carthion neu unrhyw ddeunydd llygredig arall i'r llyn, ac ni chaniateir gadael sbwriel o unrhyw fath un ai ar y tir nac yn y dŵr.

7. Cyfrifoldeb

Nid yw'r perchnogion yn gyfrifol am unrhyw golled, niwed na damwain i unrhyw berson, eu heiddo neu unrhyw drydydd parti o ganlyniad iddo iddi gael mynediad neu aros ar eiddo'r perchnogion a chymryd rhan mewn adloniant dŵr arno.

RHEOLAETH LLYN PADARN – YN ÔL ARGYMHELLION YR AIL DDRAFFT



Gwelir felly, mai argymhellion ymgynghorol yw'r rhai sy'n yr ail ddrafft. Cyngor yn hytrach na gorfodaeth yw ei thema. Yr argymhellion hyn fydd yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf o Bwyllgor Rheoli adloniant Llyn padarn. Os oes gennych unrhyw farn arbennig ar unrhyw un ohonynt, yna cysylltwch ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor hwnnw. Yr aelodau rheini sy'n cynrychioli eich diddordeb chi yn y trafodaethau, felly gwnewch eich safbwynt yn hollol glir iddynt.

Dyma gynrychiolwyr gwahanol fudiadau a chymdeithasau ar Bwyllgor Rheoli Llyn Padarn:

Cyngor Cymdeithas Llanberis.
Cyngor Cymdeithas Llanrug.
Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen.
Grŵp Cyhoeddusurwydd Llanberis – yn cael eu cynrychioli gan Mr Gartside (Fferlydd, Llanberis) a/neu Mr D. Jones (Siop Goed, Llanberis).
Undeb Athletau Myfyrwyr Coleg y Brifysgol, Bangor.
Cymdeithas Wardeiniaid Canolfannau Mynydd – ysgrifennydd Mr W. Blake, Arthog, Fairbourne.
Y Cyngor Chwaraeon, Cymdeithas Hwyllo Cymru. Cynrychiolir y ddau gan Mr B. Grey, Plas Menai, Felinheli.
Nofio – Mr Bryn Parry, Llanberis.
Sub-aqua – Mr A.R. Andrews, 4 Penrhos Avenue, Bangor.
Pysgota – Mr M.M. Jones, Meillionen, Cwm y glo (sef cynrychiolydd Cymdeithas Bysgota Seiont, Gwyrfa i Llyfni).
Canŵio – Mr K. Raine, Bryn Hafod, Llanrug.
Hwyllfordio – Mr L.W.T. Griffiths, Dolafon, Stryd Fawr, Llanberis.
Cyngor Bwrdeistref Arfon.
Awdurdod Dŵr Cymru.

Deallaf fod Mr D. Ellis wedi cynrychioli Cyngor Cymdeithas Llanberis yng nghyfarfod olaf y Pwyllgor Rheoli; fod Mr G. Hefin

Jones a Mr G. Jones wedi cynrychioli Cyngor Cymdeithas Llanrug, ond nad oedd neb yn cynrychioli Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen.

Y y Cyfarfod Cyhoeddus yn Llanberis, mynegodd llawer o drigolion Brynrefail a'r cylch bryder ynglŷn â hawliau ieuencid y pentref i ddefnyddio'r rhan ogledd-orllewinol o'r llyn i nofio a hwyllo. Bobl Brynrefail: pwyswch ar eich cyngorwyr lleol i'ch cynrychioli ar y Pwyllgor Rheoli!

Mae'n amlwg fod amrywiaeth o wahanol ddiddordebau yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Rheoli, ond mae un carfan leol sy'n absennol o'r rhestr uchod. Cyfeirio rwyf at y pysgotwyr torgoch. Nid yr un yw eu buddiannau hwy â'r pysgotwyr sy'n cael eu cynrychioli gan Gymdeithas Bysgota Seiont, Gwyrfa i Llyfni. Fe ddylai'r pysgotwyr torgoch gael cynrychiolaeth ar y Pwyllgor Rheoli er mwyn dadlau eu hachos. Mynnwch eich hawliau ar bob cyfrif a chysylltwch ag aelodau o'r Pwyllgor er mwyn sicrhau eich bod chwithau'n cael gwrandawriad!

GARI WILLIAMS YN YMWELD Â BRO'R ECO (wel bron iawn!)

Bydd Gari Williams yn arwain Noson Lawen yn Neuadd y Pentref, Rhiwlas, ar nos Fercher, Mawrth 28. Yng nghwmni'r llwyfan gyda Gari fydd Hogia Llandegai, a Lleisiau'r Gweunydd. Wrth gwrs does dim angen cyflwyno Gari, na'r Hogia i sylw darllenwyr yr Eco. Mae Cymru gyfan yn eu hadnabod ac yn mwynhau eu gwyllo ar lwyfan neu ar y teledu.

Parti o ferched o bentrefi bro'r Eco yw Lleisiau Gweunydd, dan hyfforddiant ac arweiniad Einir Wyn

Owen, Rhiwlas. Mae'r Parti wedi bod yn eithriadol o brysur yn ddiweddar, ac mae'r aelodau'n edrych ymlaen yn arw at gael rhannu llwyfan gyda sêr fel Gari a Hogia Llandegai. Ydych chi am noson fywiog ac adloniant o safon? Wel cofiwch fynd draw i'r Neuadd yn Rhiwlas. Mae'r Noson Lawen yn dechrau am 7.30 o'r gloch a'r tocynnau'n costio 75c i oedolion a 50c i blant a phensiynwyr. Cysylltwch â Mary Elliott, 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun (Llanberis 872438) am fanylion neu docynnau.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

DIOLCH: Dymuna Senor Fernando a Dilys Perez de Leon ddiolch i ffrindiau a pherthnasau am eu hanrhegion a'u dymuniadau da ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

CROESO ADRE: i Mrs Jennie Maud Griffith, Llys Meredydd ar ôl ei hail ymweliad ag Ysbyty Mon ac Arfon. Da deall fod Mrs Meredydd yn gwella.

Croeso adre hefyd i faban bychan Mr a Mrs D. Chohan, Pant Clyd, yntau wedi bod yn yr ysbyty ond wedi gwella erbyn hyn.

DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD:

Mawrth 2 cynhelir y cyfarfod gweddi i eglwys ardal Llanrug yng Ngapel Tan-y-coed am ddau o'r gloch.

Arweinir gan Mrs Nansi Roberts, Manod a thraddodir yr anerchiad gan Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, hefyd bydd y cynrychiolwyr o'r gwahanol eglwys yn cymryd rhan yn y gwasanaeth.

Croeso cynnes i holl ferched yr ardal.

CEUNANT

MARW YN AWSTRALIA: Ddydd Sul, Ionawr 15, 1984 yn dawel yn ei gartref 72 Lambeth Street, Panania, Sydney, Awstralia bu farw Huw Alun Jones. Fe'i ganed ym Methesda ar Fehefin 15, 1908. Yn 1936 priododd â merch o Lanberis, Ellen Jones (Nellie Owen).

Fe dreuliodd Ellen a Huw y rhan gyntaf o'u bywyd priodasol yn Nghan-y-Merddyn, Ceunant. Yn y fan hyn ganed eu plant, Brenda, Cynthia, Margaret a Douglas.

Ym Mehefin 1958 fe adawodd Huw Tan-y-Merddyn gyda'i wraig a'i blant a hwylodd am Awstralia bell. Fel pob un ohonom mewn gwlad estronol roedd hi'n galed iawn i Huw setlo i lawr yn y dechrau a chlywed dim o'r iaith Gymraeg ar y stryd nag yn y gwaith. Ond gyda'i benderfyniad a'i gariad mawr am fywyd buan setlodd 'rhen Huw i lawr a gwneud cartref Cymraeg i'w wraig a'i blant yn y wlad fawr ddieithr hon.

'Chymerodd fawr ddim amser i Huw Alun ddod o hyd i Gymry eraill oddi cartref, a gwneud ffrindiau gyda'r Cymry, Awstraliaid a Saeson.

Roedd Huw yn cael pleser mawr o chwarae "lawn bowls" ac roedd yn aelod o Glwb Bowlio Picnic Point.

Er mai pedwar o blant oedd gan Huw, a deg o wyrion ac wyresau, roedd o yn daid i nifer mwy. Roedd plant y Cymry i gyd yn galw Huw yn daid iddynt. Roedd Huw Alun yn gymeriad ar ei ben ei hun yn cael ei garu a'i barchu gan ei deulu a chan bawb a ddôl ar ei draws. Mae colli Huw yn golled fawr i'w deulu ac i'r Cymry yn Awstralia.

Cynhaliwyd y cynhebrwng yn yr Eglwys 'Unedig', Panania. Yn gweinyddu yn yr eglwys oedd y Parch Dilk ac ar ran y capel Cymraeg roedd y Parch Abel FfowcWilliams. Yn y cynhebrwng roedd Ellen Jones (ei wraig), Brenda, Bill; Cynthia, David; Margaret, Ressa; (ei ferched a meibion yng nghyfraith); Douglas a Kathy (ei fab a'i wraig). Sheryl, Shane, Stewart, Alan, Paul, Alisson, Helen, Sarah, Adam, Benjamin (wyrion ac wyresau). Yn y cynhebrwng hefyd roedd nifer fawr o ffrindiau Huw – Cymry, Awstraliaid a Saeson.

Doedd dim blodau ar ddymuniad y teulu, ond un torch oddi wrth y teulu i gyd, wedi ei ffurfio o 'carnations' coch a gwyn a dail gwyrdd – lliwiau Cymru, lle roedd calon Huw yn troi bob dydd o'i fywyd. Dros yr arch roedd y Ddraig Goch.

Cynhaliwyd gwasanaeth byr yn yr amlogfa yn Rockwood. Yn gwasanaethu roedd y Parch Dilk, ac ar ran y Capel Cymraeg, Pastor Bob Morris.

(Diolch yn fawr i Grace Roberts, ysgrifenyddes Cymdeithas Cymraeg Sydney Awstralia am yr adroddiad uchod.)

AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN
LLANBERIS 870793

B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL**

**GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn. (Waunfawr 626)

CLWB GWYRFAI: Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb yn Neuadd yr Eglwys o dan lywyddiaeth y Parchedig Trefor Jones, y gŵr gwadd oedd Mr T. Lyle, Caernarfon a chroesawyd ef a'i wraig Mrs Stella Lyle gan y Ficer.

Cafwyd sgwrs ddifyr iawn gan Mr Lyle ar hanes a daearyddiaeth Canada. Dangosodd sleidiau o daith o Toronto i Ottawa a Montreal pan ar wyliau yn Ontario yn 1980, a lluniau arbennig o Raeadr Niagra o'r ddwy ochr. Diolchwyd yn gynnes iddo. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Williams, Dwyfor.

Yn paratoi'r te - Mrs Roberts, Elwy House, Miss M. Roberts a Miss K. Roberts.

Chwefror 16 yn absenoldeb y Ficer llywyddwyd y Clwb gan Mrs A. Roberts, Bod Idris a diolchodd yn gynnes iawn i Mrs Morgan Jones, Pant am ddod i lenwi bwlch gan i ni gael ein siomi gan y siaradwr gwahoddedig.

Mae Mrs Jones bob amser yn hawdd ei chymwynas a chafwyd sgwrs ddiddorol ar y cyfnod yn Lerpwl pan oedd Mr Humphrey Jones yn bennaeth coleg y Fferyllwyr yno.

Enillwyd y raffl gan Mrs Awstin Jones. Yn gyfrifol am y te oedd Miss Owilda Williams, Mrs M. Lloyd Jones, Miss Gladys Lewis, Mrs M.E. Owen. Ar wahoddiad Mr Leslie Jones a staff yr ysgol byddwn yn cyfarfod yno ar Fawrth 1 i fwynhau cyngerdd Gŵyl Ddewi gan y plant. Mae Mr Jones yn awyddus i ni fod yn yr ysgol erbyn 1.45. Bydd y bws yn gadael y Groeslon am 1.15 p.m.

EISTEDDFOD YR ARDAL: Noson bwysig i'w chofio i gefnogawyr yr eisteddfod fydd Ebrill 6 pryd y cynhelir noson goffi yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 o'r gloch.

Yn y pwyllgor diwethaf diolchwyd i Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan am ei chyfraniad mawr i'r eisteddfod gydol y blynyddoedd ar ei hymddeoliad o'r pwyllgor ac fel llywydd.

Beth am inni eleni fel pentrefwyr wneud ymdrech arbennig i gael eisteddfod gofiadwy ym 1984.

Cynhelir yr eisteddfod eleni ar Dachwedd 17, 1984.

CYNGOR CYMUNED: Cadeiriwyd y Cyngor gan Peter Thomas, Bontnewydd, yn Ysgol y Bont ar Ionawr 31. Heblaw cysidro'r busnes arferol o stâd arwynebedd y ffyrdd, a'r ffaith fod dŵr yn gorlifo o'r ffosydd dros lwybr a ffordd, a bod yna dystiolaeth fod rhai yn ymyrryd â rhediad y dŵr, a bod angen croesffordd ddiogelach yn y Bontnewydd, yr oedd y Swyddog

Gwilym Hughes a'r Cwnstabl Dylan Rees wedi cael gwahoddiad.

Cafwyd sylwadau pwysig ganddynt - y dylasid dweud wrth y plismyn. heb ymdroi, am unrhyw aflonyddwch a difrod gan fod dilyn trywydd hyd yn oed ddiwrnod oed yn anodd. Mae'r cwnstabl wrth ei waith wyth awr yn y dydd, ond fod yr amseroedd yn amrywio. Yr oeddynt yn pwysleisio nad oedd pob troseddwr ifanc yn cael ei erlyn, yn aml iawn ceir sgwrs efo'r rhieni a hynny'n setlo'r mater.

Penderfynwyd gwahodd Hywel Roberts i'r NACRO i ddod i'r cyngor yn y dyfodol agos, gellir ei holi ynglŷn â gweithgareddau a fuasai'n bosibl dan nawdd y 'National Community for the Care and Resettlement of Offenders'. Yn unfrydol penderfynodd y Cyngor wrthwynebu'r syniad o fflworeiddio dyfroedd Gwynedd - hyn yn dod i sylw gan fod Awdurdod Iechyd Gwynedd am ailedrych ar y stâd ddadleuol yn Ynys Môn. Fe fydd coed ifainc yn cael eu plannu ar safle y Gogolofn yn y Waun - hyn yn cael ei drefnu gan y Cyngor Sir.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd yn yr Ysgol Gynradd, nos lau, Ionawr 26, a Mrs Gweneirys Jones yn llywyddu.

Cafwyd sgwrs addysgiadol a diddorol iawn gan y Dr Gwyn Evans o Gaernarfon ar Gymorth Cyntaf a phynciau meddygol eraill. Diolchwyd iddo gan Mrs Rhian Ellis. Mrs E. Ellis, Min y Nant, a Mrs E. Griffiths y llythyrdy oedd yn gyfrifol am y te a'r bisgedi. Enillwyd y raffl gan Mrs Olwen Williams, Lliidiart Wen.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr: 1. £40, Mrs S.G. Tyrrell, Garreg Wen, Betws Garmon; 2. £25, Mr P. Marston, Blaen y Nant; 3. £10, Mr Wyre Thomas, Weirglodd Fawr.

LLONGYFARCHIADAU I: Miss Elizabeth Owen, Noddfa, Tref Eilian, ar gael dyrchafiad yn Sister yn ysbyty Môn ac Arfon.

Mrs Tegwen Jones, Rhos Alun, am fod yn nain unwaith eto. Ganwyd merch i Gwyneth Wilyn a Sion.

Mr a Mrs John Cotton, Brynhyfryd am fod yn daid a nain eto. Ganwyd merch i Robert a Jo.

Pat a Robert Griffiths, Ty'n y Wern, ar enedigaeth mab, John Eryl, brawd i Caroline a Hazel.

Mr a Mrs T.J. Griffiths, Ty'n 'Ronnen, ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab, Thomas, i Olwen a Neil.

Hazel a Michael Williams, Arfon House, ar enedigaeth mab, brawd i Caroline, Jason a Mark.

Malcolm Roberts, Bryn Golau ar ei lwyddiant yn y sioe enwog, Crufts.

Adrian Owen, 4 Dol Erddi, ar ennill y ras 4 milltir i hogiau 12-16 oed yn Ras Rhostryfan yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN: â Mr Richard Jones, Llwyn Onn ar golli tad; ac â Mrs Griffiths, 11 Bryn Golau, a Mr Eifion Hughes, Tref Eilian ar golli mam.

YN YR YSBYTY: mae Mr Walker, Bryn Golau. Anfonwn ein cofion ato a dymunwn wellhad buan iawn iddo.

ADREF O'R YSBYTY: Daeth Mr John Roberts, Pant Teg, Mr R.W. Roberts, 9 Bryn Golau, Mr W.O. Williams, Rhesdai Cefndu a Mrs Walker, Bryn Golau. Gobeithiwn eu bônt yn parhau i wella. Gobeithiwn hefyd fod Mr Evans, Manchester House, yn gwella ar ôl triniaeth ar ei lygaid yn Ysbyty Eryri.

DIOLCH: Dymuna Dr a Mrs Raymond Williams, Tros y Gors ddiolch i bawb am y cardiau, llythyrau a phob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar golli tad Dr Williams.

Dymuna Alan a Margaret Bevan, Tŷ'r Heddlu, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd

ar enedigaeth eu merch fach, Mari.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror o'r Sefydliad yn Festri Croes-y-waun nos lau Chwefror 2 gyda Mrs C.A. Jones yn llywyddu. Dymunodd y llywydd adferiad buan i Mrs Mottram, sydd wedi cael damwain ac i Mrs Buddug Rowlands.

Darllenwyd adroddiad o'r Cyfarfod Blynnyddol, a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar gan Mrs C.A. Jones.

Darllenwyd a thrafodwyd y llythyr misol a chofnodion o'r cyfarfod diwethaf. Cafwyd noson ddifyr 'Noson gan yr aelodau' dan ofal Mrs Morgan Jones, gyda sgysiau gan rai o'r aelodau, a rhai eraill yn dangos pethau o ddiddordeb.

Enillwyd y raffl gan Miss Roberts, Glan Aber, ac fe'i roddwyd gan Mrs Katie Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Mawrth 1af, pan fydd yr aelodau yn dathlu Gŵyl Dewi.

CLWB 100 PLAID CYMRU (Mis Ionawr) - 1. Eurig Wyn, 2. Iolo Huws Roberts, 3. Emlyn Williams.

NANT PERIS

PROFEDIGAETH - Yn dawel mewn ysbyty yn Llundain ar yr ail o Chwefror bu farw Mrs Lola Shefferin, Bryn Fforch ar ôl cystudd blin. Bu'r angladd yn Amlogsgfa Golders Green ar yr 8fed o Chwefror. Cydymdeimlir â'i phriod, Mr John Shefferin a'i dau fab, Nick a Jeff, yn eu colled a'u galar.

DIOLCH - Dymuna Mr John Shefferin ddiolch yn ddiffuant i gyfeillion a chymdogion am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt fel teulu yn eu profedigaeth.

Dymuna Mrs H. Alun Jones, Awstralia, ddiolch o galon am y llu cardiau a llythyrau a dderbyniodd. Buont yn gysur mawr iddynt fel teulu yn eu profedigaeth. Diolch i bawb.

Penillion coffa i gyfaill a hen gydweithiwr, sef Joni Elis, a adwaenid fel Perisfab, gŵr amlwg ei ddoniau yn yr eisteddfod, ac yn holl weithgareddau ei fro, Nant Peris.

Penillion Coffa am John Nant (Perisfab)

Cilio mae'r dolennau cydiol Fu'n cyfannu bro wrth fro, Wele eto, gyfaill hawddgar Ar ei ffordd i wely'r gro; Arwr glew y werin gyfoes, Cymro perffaith yn ei ffydd, A phrotestiwr dros ei famiaith, A'i apel am Gymru rydd.

Yn y Nant wrth droed yr Wyddfa, Bu yn weithgar wrth ei waith, Ffordd y sir a phonc y chwarel, Fu ei orchwyl flwyddi maith; O! mor ddiddan oedd ei gwmni Ar y ffyrdd o fan i fan, Gyda'i ferfa yn blygeiniol Fyny'r Pass a ffyrdd Ty'n Llan.

Gwir undebwr yn y chwarel, A diddanwr llawer bro, Fel arweinydd ac adroddwr, Cawsom flas ei dalent o; Ar lwyfannau eisteddfodau 'Roedd Perisfab wrth y llyw, Gyda'i hwmor a'i arabedd, Ac yn cadw'r dorf yn fyw.

Yn Addoldy hen Rehoborth, Bu'n addoli flwyddi maith, O! mor hoff yr oedd o'r 'Pethau' Fu yn gymorth ar ei daith; Do, ca'dd John ei anrhydeddu Am wasanaeth doeth a glân, O! mor chwith yw colli Joni A melyster mwyn ei gân.


O! mor chwith yw colli'r hogiau, Ein cyfoedion ar y daith, Ond mwy blin eu gweld yn dioddef Dan arteithiau llwch y gwaith; Trwy'r cyfryngau bu yn canmol Gofal tyner plant a gwraig, Hon a fu ei ymdrech olaf Dros holl weddwon gwŷr y graig.

Dan gysgodion craig yr Wyddfa, Gorwedd mae gwir arwr bro, Diolch wnawn i Dduw am roddi Cymeriadau fel efo; Boed i'w briod hoff a'r teulu Nerth y nef ar dduaf awr, Y mae John er maint ei ludded Ym Mhalasdy'r Brenin Mawr.

Ei gyfaill John David Evans (Joni'r Iard), Maes y Dref, Clwt-y-bont, Deiniolen.


CYDYMDEIMLIR: â Jimmy a Billy Jones, a Mr a Mrs Griffiths, 5 Bro Glyder yn y brofedigaeth a ddaeth i'w rhan trwy ddamwain angeuol Mr John Raymond Jones, Llanberis.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

MIWSIG MEBYD

gan Goronwy Owen

Deffrown i leisiau fy nhad a mam yn codi i siarad isel, grisiau'n gwichian, coed tân sych yn dechrau cecian, a llestri'r bwrdd yn clician. Doedd wiw i mi godi, cawn fy anfon yn ôl yn syth, oherwydd fe fyddwn dan draed. Sŵn traed fy mrawd yn dod i'r tŷ ar ôl noson o waith ym mecws Ifan Owen, Stryd Llyn, a mam yng ngwaelod y grisiau yn galw ar fy mrawd arall, a'i ail alw, a'i alw eto. Gallai godi am bedwar o'r gloch y bore i fynd i hela neu sgota, ond y funud olaf oedd hi i fynd i'r chwarel. Caniad hir yr injan ar ochor draw i'r llyn, a chlip chlap sgidiau hoelion mawr yn cychwyn am ddiwrnod blinedig arall o waith, coesau bychain cyflym Morus Gryffydd, a chamau hir pendant Jeffra Robaich. O Llainwen ac i lawr allt Tŷ Croes, deuant i waelod y stryd, lle byddai lleisiau yn ateb ei gilydd.

"Sydach chi bore ma?"

"Da iawn. Diwrnod braf."

"Ma'r gwynt yn fain."

"Llym iawn. Ydi Doris yn well?"

"Ydi diolch" – y drafodaeth bach ddibwys sy'n clymu a gwau cymdeithas yn un.

Codwn i folchi dan y feis tu allan, a chael fy mrecwast. Mam yn fy mhrysuro.

"Brysia, mae'r gloch gynta yn canu, ne fe fyddi di'n hwyr."

Cusan iddi – dyna beth oedd fy nhad yn ei wneud bob bore cyn gadael y tŷ, ac roeddwn i'n gwneud pob peth roedd o'n ei wneud. Gafael yn fy nghap, a rhedeg i fyny Llainwen. Ymuno â'r plant eraill, ac os oedd yr ail gloch yn dechrau, rhedeg yn wyllt i lawr allt Snowdon View, ac i fyny i iard y bechgyn. Doedd yr un ohonom eisiau cansan am fod yn hwyr.

Sŵn plant – plant yn siarad, yn canu, yn llafar ganu, tablau, ac ia, yn crïo. Lleisiau gwahanol athrawon yn dysgu a dwrdio a gweiddi. Ar draws y cwblw torrai twrwr'r byd tu allan, ergydion saethu yn Nhwll Ty'n Pant neu Ffer Injan, chwiban tren yr L.M.S. ym Mhen Bont, pwffian trên bach yr Wyddfa a rhuad lorri Owens Lein Wyddfa yn cario glo. Roedd pob sŵn yn dweud yr amser. Ein clust oedd ein cloc.

Amser cinio. Sŵn yr engan yng ngefail Ceunant, lleisiau merched yn nrysau'r tai, sŵn traed plant yn rhedeg, rhedeg adra, rhedeg i wneud neges, rhedeg yn ôl i'r ysgol, a'r gloch yn canu ddwywaith eto.

Tipian y cloc yn Standard

Four, fel roedd y prynhawn hir diflas yn ymestyn. Mynd adra trwy Lôn Bost, lle roedd ambell i sŵn mwy diddorol i'w glywed, fel ceir ymwelwyr, pobol ddieithr yn siarad Saesneg, neu gofis dre yn gwerthuinja roc No 8.

Caniad olaf corn chwarel yn darfod gwaith y dydd, a'r trên yn cychwyn am Benllyn. Llais alto cryf fy mam yn fy ngalw i ddod i nôl fy nhe. Roeddwn yn 'i chlywed hi o gyn belled â Phen Bryn, Coed Mawr, oherwydd roedd yna rhyw ddistawrwydd cartrefol dros yr ardal, byth bron yn cael ei dorri gan foduron neu beiriannau.

Canu o'r drysau agored, sgwrsio o ben stryd, sŵn rhywun yn palu'r ardd, clochdar ieir Fron Olau. Sŵn gwartheg Bron Eryri yn pori yn y weirglodd, hefo ambell i fref yn cario o ochor Dinas, a cheiliog bronfraith yn dechrau hawlio coed derw Pant 'Rafon i gyd iddo'i hun. Lleisiau plant yn chwarae o'r gwahanol strydoedd, ac fel roedd hi'n nosi, sŵn cŵn yn cyfarth, rhu Ceunant Mawr ar ôl glaw, a hw-hw tylluan o Goed Bryn Du.

Ar Ddydd Sul, distawai'r pentra – dim sŵn o'r chwarel ond ambell i rwbél yn llithro ar y tomennydd, dim sŵn plant yn chwarae, na sŵn traed chwarelwyr.

Na, canai cloch yr eglwys bedair gwaith am chwarter awr union bob tro, diolch i deulu Twm Owen Clochydd, heb fethu'r un Sul, ar hindda na storm, a sŵn traed ysgafn mewn



sgidia gorau yn mynd y gwahanol ffyrdd i addoldai y plwy – Robin a Wil Tai Cris hefo'u tad yn mynd i Nant Padarn, Wil Davies a'r genod bach yn mynd i fyny'r allt am Preswylfa, a Mrs Wood hefo Annie a Cassie yn brysio i Capel Coch. Ambell i nos Sul, os oeddwn wedi cael fy ngadael adra am ryw reswm, byddai sŵn canu o Preswylfa yn cario tros lanci, i tŷ ni, ac yna ar ôl sbel dechreuwn wrando am sŵn traed y teulu'n dod adre, heibio ochr y tŷ.

Weithiau, deuai rhyw dawelwch trymaidu dros yr ardal, ambell i gynhebrwng mawr mawr, bore'r cadoediad oedd bryd hynny yn cyrraedd bron bob aelwyd, neu ddiwrnod trip yr Ysgol Sul, pan oedd y pentra wedi'i hysbyddu o blant. Rhywbeth anaml oedd

distawrwydd fel hyn, er y daw un i'm co yn dda.

Amser chwarae y prynhawn oedd hi, a ni'r plant allan yn yr iard yn gweiddi a sgrechian mewn mwynhad – y miwsig sy'n cario i glyw y mamau ym mhob cornel o'r pentre. O gyfeiriad yr Wyddfa, daeth rhyw sŵn bach dieithr, sŵn hollol anghyfarwydd i ni oll. Disgynodd caead o dawelwch anarferol dros yr iard. Roedd pob un ohonom wedi'n fferru gan rhywbeth rhwng ofn a chywreinerwydd. Flynyddoedd wedyn, dywedodd David Jeffra wrthyf, i'r athrawon i gyd redeg i ffenestri'r ysgol i weld pa drychineb oedd wedi digwydd, ddim ond i glywed un gair yn cael ei weiddi gan bob llais – "Eroplên, Eroplên".

Ia, hi oedd y gyntaf i ni erioed ei gweld, a'r gyntaf rwyf bron yn siŵr i ehedeg dros y pentra. Un fach iawn oedd hi, ond roedd hi newydd ddod dros yr Wyddfa fawr, ac i ni, roedd hynny yn wyrth ryfeddol.

Does dim ergydion o'r chwarel, bellach, na llifeiriant o esgidiau hoelion mawr ar y ffyrdd. Mae corawl Preswylfa wedi peidio, ac mae rhyw dinc technegol aflafar i gloch yr eglwys. Fyddai llais mam ddim yn gallu cystadlu hefo sŵn y ceir, ac ni wna'r un plentyn yn iard Ysgol Dolbadarn feddwl am dewi i'r un o'r awyrennau di-rif sy'n hedfan drosodd.

Ond hyn sy'n od.

Gallaf gau fy llygaid a chlywed y cwblw heddiw 'ma, a beth sy'n fwy od, rwy'n siŵr nad fi yw'r unig un.

Yn awr dan berchenogaeth

**GWYNETH
ROBERTS**

Siop

E.WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS 870491

Daliwch i gefnogi fel o'r blaen!

EISIAU CLIRIO'R Tŷ?
Am gael gwared â hen
ddodrefn, celfi ac ati?

Os am werthu neu
brynu cysylltwch
gyntaf â

BRIC A BRAC

(David a Dilys Evans)

Ffordd yr Orsaf

Ffôn Caernarfon

76685

YN ARDAL ECO'R

WYDDFA,

AR GARREG EICH DRWS

LLANBERIS

Gohebydd – Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol, (Llanberis 870220)

PEN-BLWYDD: Ar Ionawr 18 bu lolo Wyn, 60 Dol Elidir yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Anfonwyd cyfarchion iddo gan ei rieni, y teulu a llawer o'r cymdogion a chyfeillion.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr yn y Ganolfan. Llywyddwyd gan Mrs Hannah Jones. Darllenwyd a thrafodwyd materion yn codi o'r llythyr misol.

Cydymdeimlwyd â Mrs Jean Elis ar farwolaeth ei gŵr, Perisfab, yn ddiweddar, ac hefyd â Mrs Betty Humphreys, Mrs Betty A Owen a Mrs Nan Owen ar farwolaeth sydyn eu brawd yng nghyfraith yn Awstralia.

Y gŵr gwadd am y noson oedd y Dr Dafydd Roberts o'r Amgueddfa Lechi a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am ddatblygiad y diwydiant llechi yng Nghymru. Diolchwyd iddo ac i'r gwestwagedd am y noson, gan Mrs A.B. Jones, a Mrs Netta Jones. Y gwestwagedd oedd Mrs Katie Griffith, Mrs Lizzie Jones, Mrs Nancy Jones a Mrs Mary Jackson. Enillwyd y raffl gan Mrs Megan Hughes.

Trefnir trip penwythnos i'r Arddangosfa yn Olympia Llundain ym mis Mehefin. Enwau i'r ysgrifenyddes cyn diwedd Chwefror.

Dethlir Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Gwynedd, nos Iau, Chwefror 23 am 7.30 yng nghwmni Miss Mat Pritchard, Caernarfon.

CYMRU BACH NEWYDD: Ar ol dychwelyd gartref ar ôl tri mis yn Hong Kong derbyniodd Mrs Elza Williams, Stryd y Ffynnon newyddion da iawn. Yn ysbyty Nablan, Hong Kong ar Ragfyr 13 ganwyd i'w merch Jane a'i phriod O. Donnell, eneth fach – Claudia Elizabeth – chwaer fach i Hugh, Liam a Rory. Deallodd hefyd y bydd y teulu'n dychwelyd i Lundain yn fuan iawn – a chyfle iddi hithau weld y babi newydd.

Ar Chwefror 10 ganwyd i Ruth a Stanley (mab Mrs Elza Williams), Pant y Cefn, yn Ysbyty Bangor, mab bychan, brawd i Dafydd ac Evan. Wel, dyna dda ynte Cymro bach newydd yma i groesawu Cymraes fach o gyn belled â Hong Kong.

DIOLCH: Cael damwain a thorri ei droed a wnaeth Ian, mab Mr a Mrs Derek Williams, Glasfryn, Stryd Fawr. Dymuna Ian ddiolch i bawb o'i ffrindiau a'r cymdogion am eu caredigrwydd iddo, ac i aelodau a phwyllgor y tîm pêl-droed y bechgyn.

Dymuna Mrs Muriel Jones a'i mab, Ken, Fron Helyg, y Felinheli ddiolch o galon i'r llu cyfeillion o Lanberis a'r cylch am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth lem o golli priod a thad

annwyl iawn.

Derbyniwyd y swm o £500 gan gyfeillion ar yr achlysur ac mae'r swm i'w rannu rhwng adran E.N.T. Ysbyty Bangor a'r eglwys yn y Felinheli.

Dymuna Evan Wilson ac Alice Hughes, ddiolch i bawb a'u cefnogodd yn ystod eu cyfnod mewn busnes yn 84 Stryd Fawr, Llanberis a dymunant bob llwyddiant i Eifion a Gwyneth Roberts, y perchenogion newydd.

ALUN YN GALW: Ar raglen foreol 'Alun yn Galw' bu Shirley, Gelli-hir-bant gynt, yn siarad ag Alun Williams o Napian, Ontario, Canada. Wedi gadael Ysgol Dolbadarn, a symud i Ysgol Brynrefail, yna mynd i'r Coleg Normal bu'n dysgu am beth amser. Yna, yn 1952 priododd â Talfryn Griffith o Gaerfyrddin, ac yn awr mae wedi cartrefu yng Nghanada. Anfonodd ei chyfarchion at amryw o'i chyfeillion ysgol – Mair Evans a Doctor Morris a'i briod, Bangor.

CROESO: Croso'n ôl i chi i'r hen ardal Dora. Deëllir eich bod wedi ymddeol o Lundain ac wedi penderfynu cartrefu yng Ngelli-hir-bant. Merch y diweddar Mr a Mrs William Evans, Dôl Elidir yw Dora Evans, ac mae ganddi ddwy chwaer, Mair sydd yn byw yn Dôl Elidir a Gwyneth sydd yn Ne Affrica. Dymunir i chwi lawer blwyddyn ddedwydd yn eich ardal enedigol.

Y PRYDAU PAROD: Dymuna Pwyllgor yr Henoed ddiolch i'r cyfeillion canlynol am roddi eu gwasanaeth yn wirfoddol i gludo'r Prydau Parod o amgylch yr ardal ddwy waith yr wythnos: Mrs Muriel Lloyd, y Stryd Fawr, Mrs Menna Jones, London House, Mrs Dennis Williams, Manchester Row, Mrs Derek Williams, Glasfryn, Mrs Heulwen Edwards, Eldon House, Mrs Jane Lloyd Jones, Peris View.

Da iawn yw deall bod y trefnydd, Mrs Doris Hughes, Beech Bank wedi gwella ar ôl ei thriniaeth lawfeddygol.

O HONGKONG I LUNDAIN: Croeso gartref i Janet a'i dau fab bychan i ymweld â'i mam, Mrs Maud Burford, Ystâd Glan'rafon. Bu Janet yn byw yn Hong Kong, ond mae ei phriod wedi ei symud yn awr i Lundain, lle y bydd yn haws iddynt ymweld â'r henardal.

YN GWELLA: Deëllir fod Mrs Nellie Morris, Stryd Turner yn gwella yn dda ac wedi dychwelyd o Ysbyty'r Nerfau yn Ninbych i Gartref Ymarfer Tyddyn Elan.

Da iawn deall fod Ffion Meleri a Dafydd Aaron efeilliaid bach Derlwyn a Gwen, Moelfre, Sir Fôn yn gwella ac yn disgwyl cael mynd gartre unrhyw ddydd o Ysbyty Minffordd. Mae'r

newyddion da yma wedi codi calon Nain, Maes Llwyn yn arw iawn.

Eto, wedi dod gartref o Ysbyty Alderhey, Lerpwl mae Ian Harding, Min y Coed ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol, a phawb yn falch o'i groesawu gartref.

Yn yr ysbyty y mae Gwawr Clarke, Maes Padarn. Dymunir iddi hithau wellhad buan ac y caiff ddychwelyd gartref at ei theulu bach yn fuan iawn.

CYDYMDEIMLAD: Ar ddechrau'r mis collodd Miss Ann Jones, Teras Minafon ei brawd, Evan, oedd yn byw yng Nghaernarfon. Bu'n weddw am rai blynyddoedd a byddai'n mynd o bryd i bryd i aros gyda'i ferch Gwyneth yn Jersey, yn y Channel Islands, ac yno, dros y dŵr y bu farw. Cymeriad hynod o hoffus ydoedd yn adnabyddus iawn dros gylch eang, ac un o'i brif ddiddordebau ydoedd pysgota. Roedd yn cael ei gydnabod fel genweiriwr medrus iawn ar yr afon ac ar y llynnoedd o gwmpas.

Claddwyd ei weddillion yng Nghaernarfon. Estynnir y cydymdeimlad llwyr â'i chwaer, ei wyrion, Bertie, Cledwyn ac Arwel.

Cydymdeimlir â Mrs Robert Griffith, Cartref Plas Pengwaith (Stryd Siarlot gynt) ym marwolaeth ei chwaer, a fu farw yng nghartref ei merch Olwen a'i phriod John Peris Jones.

Eto, colli ei chwaer wnaeth Mrs Catherine Parry, Stryd Yankee. Hithau yn wael ers amser yng Nghartref ei merch yng Nghaernarfon. Derbyniwch pob cydymdeimlad Mrs Parry.

Cydymdeimlir â Mrs Pughe, Stryd Siarlot ar golli ei brawd, Alun John Owen, Dôl Eilian ac ôl hir waeledd.

Hefyd Gwilym a Glenys, Stryd yr Wyddfa, mab a merch yng nghyfraith i'r diweddar Alun Owen.

Wedi colli ei modryb yn Llangaffo, ger Biwmares y mae Miss Marian Davies, Teras Efrog. Estynnir y cydymdeimlad llwyr iddo yn ei phrofedigaeth.

Yn yr ysbyty yn Llandudno bu farw Derlwyn Rees, mab y diweddar Mr a Mrs Rhys Jones, Stryd Siarlot. Estynnir cydymdeimlad â Mrs Dilys Griffith Owen, Bryn Gwynedd, Stryd Newton. Roedd Derlwyn yn nai iddi.

Collodd Mrs Maisie Lewis, Llys Tudur ei nai, mab y diweddar Ellis Tudur Roberts, a fu'n brifathro Ysgol Edern. Ifanc iawn ydoedd, ac wedi dioddef afiechyd blin yn dawel a di-rwgnach. Estynnir cydymdeimlad dwysaf â Mrs Lewis.

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i Mrs Margaret Wyn Jones, Llainwen Isaf ar ennill cymhwyster i fod yn hyfforddwr penodedig gyda Badminton – dan nawdd The Welsh Badminton Union. Gall fod o gymorth mawr i bobl ifainc yr ardal – oherwydd y rhif uchel sydd yn ymddiddori yn y chwarae yma.

YMDDEOLIAD: Mis Chwefror ydoedd mis ymddeol i Mr W. Williams o'r Bontnewydd, a fu yn reolwr Siop C.R.S. yn Llanberis. Dymunir iddo hir oes, a mwyniant mawr, gyda dymuniadau gorau eu gydweithwyr a'r llu cwsmeriaid fu'n mynychu'r siop.

LLWYDDIANT Y RHEDWYR: Yn Ras Redeg Rhostryfan daeth rhedwyr Llanberis yn llwyddiannus iawn. **Dan 12 oed genethod, milltir a thri chwarter:** 1. Linda Prydderch. **Dan 12 oed bechgyn:** 1. Paul Prydderch, 3. Marc Lloyd Williams. **Dynion:** 3. Michael Roberts. Yn Ras Redeg 'Mini Marathon' Caernarfon, bu Paul a Kevin ei frawd yn llwyddiannus unwaith eto.

Ardderchog yn wir – daliwch ati.

PERSONOL: Deallwn fod Eifion a Gwyneth Roberts, wedi dychwelyd i ardal eu mebyd ac wedi ymgymryd â'r busnes yn Eryri House ar ôl ymddeoliad Mr a Mrs Wilson Hughes. Derbyniwch ddymuniadau gorau'r ardalwyr – a bydded llwyddiant i chi yn y dyfodol.

MARWOLAETH: Ar ôl gwaeledd maith bu farw Alun John Owen, 19 Dôl Elidir yn ei gartref yn 70 oed. Daeth i'r ardal o Brynrefail a chyd â medrai ei iechyd ganiatáu bu'n gweithio fel dreifar ar un o drenau bach y chwarel. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Nant Peris gyda'r Deon Gwlad y Parchedig Richard Jones yn gwasanaethu. Estynnir y cydymdeimlad llwyr â'i weddw a'r teulu i gyd yn eu colled.

Y PARCHEDIG ERIC OWEN: Ar ôl cystudd go flin bu'r Parchedig Eric Owen farw ym Miwmares, Sir Fôn. Er y byddai'n aros yn ei hen gartref, Tan y Bwlch, Pentre Castell am fisoedd yn ystod y flwyddyn, byddai hefyd yn aros yn Sir Fôn. Un o fechgyn yr ardal hon ydoedd Eric wedi tarddu o un o'r teuluoedd hynaf yn yr ardal – a'r cwbwl ohonynt wedi gadael y fuchedd hon erbyn hyn. Yn Lloegr y bu'n dilyn ei alwedigaeth ar hyd y blynyddoedd, ac wedi ymddeol dychwelodd i Lanberis.

Raymond Jones: Ar y lôn newydd sydd wedi ei hagar tu draw i Fangor am Aber, canfuwyd Raymond Jones, Elidir View yn farw ar ochr y ffordd. Cydymdeimlir â'i feibion a'r teulu yn eu profedigaeth.

CLWB ERYRI: Doctor Dan Hughes oedd y siaradwr yng Ngwesty'r Gwynedd y mis diwethaf sef Chwefror i aelodau Clwb Eryri. Llywyddwyd gan Mr lolo Llywelyn, y gŵr gwadd i'w Cinio Dathlu Gŵyl Ddewi fydd y Parchedig Meirion Lloyd Davies, o Bwllheli, cyn-aelod o'r Clwb a chyn-weinidog Capeli Preswylfa a Gorphwysfa. Collodd y Clwb un o'r aelodau a sefydlodd y gymdeithas sef J.W. Elis (Perisfab) o Nant Peris. Cydymdeimlwyd â'r teulu yn eu profedigaeth.



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. **Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

Ar agor 9.30 am - 9.30 pm

Galwch i weld Gwil wrth ei waith ym Mharc Padarn, Llanberis



SNOWDONIA FIRE PROTECTION

**YR HEN EFAIL
WAUNFAWR Ffôn 235**

**Offer Diffodd Tân – Masnachol ac i'r Cartref
Goleuadau argyfwng Larwm Tân
Offer canfod mwg ar gyfer y cartref
Dewch i weld ein siop newydd – ar fin agor**

Llanberis

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd Pwyllgor Blyneddol Undeb y Mamau, Eglwys Sant Peris a Sant Padarn dan lywyddiaeth Mrs Betty Humphreys, Nant Peris. Darllenwyd adroddiad Esgob Bangor gan y llywydd, a chyflwynwyd adroddiad o weithgareddau'r flwyddyn a'r adroddiad ariannol gan Mrs Glyn Williams. Y swyddogion am y flwyddyn fydd: Llywydd: Mrs Betty Humphreys, Trysorydd, Mrs Glyn Williams, Ysgrifennydd, Mrs Denness Hughes.

Cydymdeimlwyd â dwy o'r aelodau yn eu profedigaethau yn ddiweddar - Mrs Hughes oedd wedi colli ei brawd; Mrs Betty Humphreys wedi colli brawd yng nghyfraith.

PÊL-DROEDIWR ADDAWOL: Bachgen bach naw oed yw Ian Lloyd Hughes, Rhif 1 Coed y Glyn ac yn ddisgybl yn Nosbarth 2-3 Ysgol Dolbadarn. Un o'i brif ddiddordebau yw pêl-droed ac yn ddiweddar enillodd Dystysgrif a Bathodyn glas am sgiliau pêl-droed dan nawdd 'Coca Cola'. Yn awr mae'n mynd ymlaen am y bathodyn coch. Mae'n amlwg fod lan yn bêl-droediwr addawol iawn. Pob lwc i chi lan - mae gennym redwyr addawol iawn yn yr ardal, mae'n bryd i ni gael pêl-droediwr llwyddiannus erbyn hyn.

PRIODASAU:

Carys a Richard: Yn Eglwys Sant Padarn ar Ionawr 28 priodwyd Carys Ann, merch Mr a Mrs Selyf Hughes, Tan-y-dderwen, â Richard, mab Mr a Mrs Todd Fellows, Dewsbury, Swydd Efrog. Gwasanaethwyd gan y Parch Richard Jones a'r organyddes oedd Miss Marcia D. Thomas, B.A. Darparwyd y wledd briodasol yng Ngwesty Dolbadarn lle y daeth llu o gyfeillion i ddymuno'n dda i'r pâr ifanc.

Mae'r priodfab yn gwasanaethu gyda'r Llu Awyr, ac mae'r ddau wedi paratoi eu cartref yn St Athan, Caerdydd. Dymunir iddynt bob llwyddiant.

David a Gwenno: Ddydd Sadwrn, Ionawr 11 priodwyd David a Gwenno yng Nghaernarfon. Mab Eruwyn a Sue Griffiths, 38 Dôl Elidir yw David, a merch Mr a Mrs J. Jones o'r Bontnewydd yw Gwenno. Bu'r wledd briodasol yng Ngwesty'r Dolbadarn. Bydd David a Gwenno yn cartrefu yn Stryd Llainwen. Dymunir iddynt bob hapusrwydd i'r dyfodol.

GENEDIGAETH: Ar Ionawr 23 ganwyd merch i Eurgain a Michael, Bryn Crug, Tywyn a'i henw yw Awel Angharad. Mae'r Parch Gwynfor Williams a'i briod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau iddynt ac i Mrs N. Williams, Creigle, Stryd Newton, ar fod yn hen-nain unwaith eto.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth Ionawr 31 gyda Mr D. Glynne Owen yn llywyddu, croesawyd Mrs Phyllis Roberts, y Groeslon i ddangos darluniau o Israel. Diolchwyd iddi gan Mrs Nesta Pritchard, Glanfa.

Y Dr John Gwilym Jones oedd y siaradwr yng nghyfarfod mis Chwefror. Ei destun oedd 'Y Stori Fer'. Mwynhawyd ei sylwadau yn fawr iawn. Llywydd y noson oedd Mrs J.L. Williams, Bod Fair, a thalwyd diolch i'r siaradwr gan Mr W.A. Jones.

Dydd Sul y 19ed estynnwyd croeso cynnes i'r Parch John Morris, Mrs Morris a'r plant, Rhys a Llŷr, i'n plith, ym Mhontrhythallt gan lywydd y mis Mr Emrys Owen.

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Chwefror 14 cyfarfu'r gangen leol yn yr Ysgol Gynradd, Mrs Bethanne Williams yn llywyddu, yn absenoldeb y llywydd Mrs Ann Llwyd, oedd yn absennol oherwydd anhwylder, felly hefyd Mrs Lovatt a Mrs G.M. Jones.

Croesawyd aelod newydd a symudodd i fyw i'r ardal yn ddiweddar sef Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, priod y Parch John Morris.

Y gŵr gwadd oedd y Dr Huw Roberts. Testun ei sgwrs oedd 'Afiechydon Plant - damweiniau a'u triniaeth; - y meddyg a'r plant a ffydd plant yn y meddyg'.

Diolchwyd i'r Dr Roberts am ei sgwrs ddiddorol a gwerthfawr, gan Mrs J.C. Williams.

Paratowyd paned o de gan Mrs Jean Davies, Mrs Buddug Jones, Mrs Mair Jones, Mrs Evans, a Mrs Katie Williams, a diolchwyd iddynt gan Miss Phyllis Ellis.

Gofynnir i rieni'r aelodau sydd heb gyfrannu tuag at Gronfa £1 y pen anfon 50c i'r trysorydd Mrs Ann Evans.

Dydd Sadwrn Mai 12 trefnir taith ar y trêni i Lundain gan Bwyllgor Rhanbarth yr Anabl a gwahoddir aelodau Arfon o Ferched y Wawr i ymuno â hwy.

Cost teithio fydd £12 i oedolion ac £8 i blant. Os am fynd ar y daith anfoner blaendâl o £6 un ai i Mrs Bethanne Williams neu Miss Megan Humphreys erbyn Mawrth 20.

Cynhelir Ffair Wanwyn yng Ngwesty Victoria ar 12fed o Fai. Y pris yw £6. Ceir manylion pellach gan Mrs Margaret Parry fydd yn barod i dderbyn enwau y rhai sydd am fynd i'r Ffair.

Mawrth 13 yng Ngwesty'r Foelas dethlir Gŵyl Ddewi yng nghwmni Ifor Bowen Griffith. Anfoner enwau i Mrs Margaret Parry erbyn Mawrth 9.

CYMDEITHAS CHWIORYDD Y CAPEL MAWR:

Nos Iau, Chwefror 2 cafwyd Noson Goffi o dan lywyddiaeth Mrs Nansi Roberts, Manod. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs M. Evans, Lloc. Estynnodd y llywydd groeso cynnes i bawb oedd yn bresennol, ac anfonwyd cofion a diolch at y chwiorydd absennol oherwydd gwaeledd ac amgylchiadau eraill ond a anfonasent eu cyfraniadau mewn rhoddion ac arian at y gwaith. Trefnwyd ar gyfer Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd sydd i'w gynnal yng Nghapel Tan-y-coed ddydd Gwener Mawrth 2 am ddau o'r gloch. Pasiwyd ein bod yn anfon rhodd deilwng at waith y Sasiwn Genhadol a gynhelir yng Nghaernarfon ym mis Mai. Rhoddwyd y noson gan Mrs Jane Williams, Bryn Eifion a Mrs Dorothy Jones, Tegerin. Yn absenoldeb Mrs Williams oherwydd gwaeledd cynorthwywyd Mrs D. Jones gan Mrs

Beryl Thomas, Gerallt. Diolchwyd iddynt gan y llywydd a dymunwyd i Mrs Jane Williams iachad llwyr a buan.

GENEIDGAETH: Llongyfarchwn y Parch a Mrs Ifan R. Roberts, Llanfihangel Glyn Myfyr, Corwen gynt o'r Tŷ Capel Mawr ar enedigaeth eu merch fach, Sioned Hedd.

DIOLCH - Dymunaf ddiolch i'r canlynol am fy nghynorthwyo gyda gwerthiant yr Eco - Nerys Powell, Mrs Bethanne Williams a Mrs Eirwen Rowlands. Bydd Leri Gwenan, Mrs Eiranwen Thomas a Mrs Gwenda Roberts yn ymgymryd â'r gwaith o hyn ymlaen. Diolch iddynt hwythau - Gwilym Davies.

ANTI NEL YN 90 OED



Mrs Ellen Ann Jones yn cael help gan ei mab Francis i dorri ei theisen penblwydd.

Ddydd Sadwrn, Chwefror 18 roedd Mrs Ellen Ann Jones, 23 Hafan Elan, Llanrug yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

Hi yw unig ferch y diweddar Mr a Mrs William Thomas, 9 Teras Bryngwyn. Daeth ei theulu yno i fyw o'r Waunfawr pan oedd hi ond pedair oed, ac ar wahân i un mlynedd ar ddeg yn Swydd Efrog, yno y mae wedi byw ar hyd ei hoes. Collodd ei phriod, y diweddar John W. Jones, yn ystod y Nadolig 1943. Symudodd i fyw i Hafan Elan ym mis Hydref 1983 lle mae bellach wedi ymgartrefu ymysg hen ffrindiau.

Ar achlysur ei phen-blwydd rhoddwyd parti iddi yn Hafan Elan gan ei mab y Cynghorydd Francis Jones, Y.H., Llanberis. Darparwyd y wledd gan Mrs Dilys Jones, Mrs G. Owen, Mrs C. Williams a gwnaethpwyd cacen ar ffurf 90 gan Heather, sydd wedi dyweddio â John Gwynedd, ŵyr Mrs Nell Jones.

Daeth 43 o deulu a ffrindiau i'r dathlu ac i ddymuno'n dda i 'Anti Nel', fel y'i hadnabyddir gan lawer, gwraig sy'n groesawgar, cymwynasgar ac yn fawr ei pharch.

Hoffai Anti Nel ddiolch yn gynnes i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da, y llu cardiau ac anrhegion. Dymuna ddiolch yn arbennig i Mrs Dilys Jones ac i Mr Jones.

Dymunwn ninnau hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd a'n dymuniadau gorau am flynyddoedd lawer eto.

PADARN DAN REW - 37 MLYNEDD YN ÔL



Anfonodd Meirion Thomas, Lôn Tŷ Du y llun uchod a dynnwyd ar 21ain o Chwefror, 1952, pan rewdodd y llyn a'r plant yn y llun wedi bod yn

chwarae ar ei wyneb. Carai Meirion Thomas wybod pwy yw'r plant sydd gydag ef yn y llun.

NEWYDDION YSGOL DOLBADARN

Y TÎM PÊL-RWYD: Llongyfarchiadau i Dîm Pêl-rwyd yr ysgol ar ennill y gêm yn erbyn Ysgol Porthygest o 49 pwynt i ddim.

Y TÎM PÊL-DROED: Colli fu hanes Tîm Pêl-droed yr ysgol o saith gôl i ddwy yn erbyn Tîm Ysgol y Cymerau, Pwllheli.

Mewn Twrnament Pêl-droed yng Nghanolfan Hamdden Arfon llwyddodd Tîm yr Ysgol i ennill un gêm, dod yn gyfartal yn yr ail, a cholli'r drydedd gêm. Da iawn fechgyn am eich hymdrech.

GALA NOFIO YN YSGOL

ABERCONWY: Ar nos Iau, Chwefror 23 aeth nifer o blant o'r Ysgol gyda Mrs E. Pierce a Mr R. Thomas i gystadlu i'r gala uchod. Dyma restr o blant a fu'n llwyddiannus - 40 medr Nofio Rhydd Merched dan 10 oed: Anna Ll. Roberts, 2. 40 medr Nofio Cefn Merched dan 12 oed. Jennifer Clarida. 4. 40 medr Nofio Broga Merched dan 10 oed: Anna Ll. Roberts. 40 medr Nofio Broga Merched dan 12 oed: Catherine Gray-Williams, 8fed. Llongyfarchiadau iddynt oll ac i bob un plentyn a fu'n cystadlu. Llongyfarchiadau arbennig i Anna Ll. Roberts ar gael ei dewis yn aelod o dîm Sir Eryri a fydd yn cystadlu ym Mhwl Nofio Treffynnon yn ystod wythnos

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlwn â Miss Marion Davies, athrawes yn ei phrofedigaeth o golli modryb.


LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Carys Edwards, Llwyn Mawr Canol, Parc, Bala, ar ei llwyddiant yn y gystadleuaeth Cân i Gymru. Cyfansoddodd Carys yr alaw a'r geiriau i'r gân sydd wedi dod i'r chwe cân derfynol yn y gystadleuaeth. Bydd y gystadleuaeth yn cael ei dangos ar y teledu nos Iau, Mawrth 1af. Merch yw Carys i Mr a Mrs Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis, prifathro Ysgol Dolbadarn yw Mr Hughes wrth gwrs.

O ENAU PLANT BYCHAIN ...

- Poleit ydi byta sandwîjs heb edrach be sy ynddyn nhw i ddechra.

- Mae dad yn ddiog. Mae o'n mynd allan drwy'r dydd, ac edrach ar y teledu drwy'r nos.

- Dydi mam byth yn chwara efo fi - mae hi'n chwara efo'r sinc drwy'r amser.



Wst ti be ...
mae 'na bobol
yn edrach yn
wirion ar y
dudalen yma.



Dawns werin o America — Roc a Rôl.



Ble aeth dy drywsus, fab annwyl dy fam?



Grŵp Opera Brenhinol Dolbadarn.

CANLYNIADAU

CYSTADLAETHAU LLWYFAN:

1. Grŵp yn meimio i unrhyw record neu dâp. 1. Parti Lea, Penisarwaun, 2. Merched y Wawr, Bethel, 3. Grŵp Opera Brenhinol Dolbadarn, Llanberis. 2. Unawd: dan 5: 1. Brian Williams, Bethel, 2. Matilda, Deiniolen, 3. Mereri Prys, Llanrug. 3. Parti Iodlo: 1. Parti Llethrau'r Wyddfa, Llanberis, 2. Tethi Trymion, Llanrug, 3. Parti Bethel. 4. Côr adrodd gydag effeithiau sŵn: 1. Parti Sŵn Bethel, 2. Lleisiau Glannau Peris Llanberis, 3. Côr Lladron Pendinas, Penisarwaun. 5. Tîm gymnasteg: 1. St Trinians, Penisarwaun. 2. Eryrod Erchyll Eryri, Llanberis, 3. Llanrug. 6. Adran Ambiwylans: 1. Emergency Ward 10, Penisarwaun, 2. Adran Llanberis, 3. Adran Bethel. 7. Dawns werin, pâr, o unrhyw wlad ac eithrio Cymru: 1. 1. Môr Grug (Groeg), Penisarwaun, 2. U.D.A. Bovril a Tin (America) Llanrug, 3. Shw Plats

(Swddir) Penisarwaun. 8. Cyflwyniad o Deledu Brecwast: 1. 1. Teledu Bethel, 2. Yr Arabiaid, Llanberis, 3. Teledu Penisarwaun. 9. Prif Wobr Barddonlyd: Cerddi 'Crafu': Nant Roberts, Penisarwaun. 10. Llythyr Ymddiheuro: 1. J. Glyn Evans, Penisarwaun, 2. Ann Ifans, Penisarwaun, 3. Mrs. N. Jones, Penisarwaun. 11. Cartŵn yn ymwneud â'r oes dechnegol: 1 a 2. Nant Roberts, Penisarwaun, 3. Dafydd Ifans, Penisarwaun. 12. Deg gorchymyn i fab neu ferch ar drothwy priodas: 1. J. Glyn Evans, Penisarwaun, 2. ? Deiniolen, 3. Jane Jones, Gladwyn, Llanrug. 13. Llefarydd deg o ddyfyniadau poblogaidd: 1. Delyth Williams, Penisarwaun, 2. Ann Ifans, Penisarwaun, 3. Mary Davies, Penisarwaun. 14. Linell goll: 1. Mair Hughes, Llanrug, 2. Mary Wyn Jones, Deiniolen, 3. Sioned Roberts, Penisarwaun.



Dal d'afael ...!



Edrychwch ar ei thad yn dotio arni!



... a'i mam arni hithau!

"SBORTS" IAWN Y F



Rhai o'r ymgeiswyr hynaf yn y gystadleuaeth gymnasteg.



...a rhai o'r ymgeiswyr noblaif?



...rhai o'r ymgeiswyr mwyaf gosgeiddig?



— Pyns a Merched y Wawr Bethel — yn gytŵn.




Dyfan Roberts — y beirniad yn amlwg yn mwynhau ei waith.

SAFLEOEDD TERFYNOL

1. PENISARWAUN
2. BETHEL
3. LLANBERIS
4. DEINIOLLEN a LLANRUG

AWN Y FRO



gymnasteg.



ûn.

SAFLEOEDD TERFYNOL

1. PENISARWAUN
2. BETHEL
3. LLANBERIS
4. DEINIOLEN a
LLANRUG



Un o'r cystadleuwyr dan 5 oed.



Nant Roberts, Prifardd yr eisteddfod.

Sbia nes
adra
frawd!



P'run 'di'r od man owt 'dwch?



Iodlwyr hwyliog Penisarwaun.



... a rhai corniog Llanrug.

Y GERDD FUDDUGOL: CRAFU

'Crafu'
– neu os liciwch chi, Ymson Chwanen
sawl n sydd yn chwannen (o ie mae
hwnna'n well)

Gair bach o eglurhad – darparwyd y
cyfarpar yma i'ch ysgogi i grafu.

Os ydych chi'n gyfforddus mi
ddechreuwn ni.

O ie , mae eisiau cyflwyno'r
ymddiheuriadau arferol i RWP?
HEFYD – jest i mi anghofio.

O.K. iawn 'wan?

Dyma ni te:

O olwg byd a betws
Ar fola llwyd y tramp
Mae bro rhwng trons a gwasgod
Wêl olau dydd na lamp,
Ond weithiau pan fydd raid troi clôs
Cawn ambell wiff o ffresh-êr y nos.

Draw o ymryson ynyd
Biwti'r hyijinic wyrld,
Mae yno flas y cynfyd
Yn aros fel Niw-Byrd – (“mellow” –
dallt?)

Sur, sur yw'r oglau rownd y bowt
Y gasgen foliog lawn o sdowt.

A chyrchfan fendigedig
Yw llwybrau'r Heiwe Flew,
O fwa'i tho plethedig
I'r cen sy' danna i'n dew.
I lan na thref nid arwain ddim
Ond hynny nid yw ofid im.

Ond braf yw cyrraedd canol
Y nefal-bis bach hwn
'Rôl crwydro hyd y rhychau
A rownd y twll bach crwn;
A swatio yno yn gytûn
Gyda llwyth golew o'm brid fy hun.

“UN O'R BRID”

TONY AC ALOMA AR TARO TANT!



Tony ac Aloma yn ôl efo'i gilydd ym Môn yn ddiweddar.

Ar ôl wyth mlynedd ar wahân, mae deuaud enwocaf Cymru yn ôl efo'i gilydd – a hynny ar 'Taro Tant'.

Yn 1976 y canodd Tony ac Aloma efo'i gilydd am y tro diwethaf, ar ôl blynyddoedd o swyno pobl o bob oed o Fôn i Fynwy, ac o Gaerfyrddin i (gaffi) Gaerwen.

Bu cael y ddau yn ôl i ganu yn ddim llai na sgŵp i Huw Jones, cynhyrchydd Taro Tant – roedd o "wrth ei fodd" pan gytunodd y ddau

i ymddangos ar y gyfres newydd fydd yn cychwyn ar S4C ar nos Wener, Mawrth 9, am 7.30 am 12 wythnos. "Dwi'n sicr y bydd miloedd o Gymry wrth eu boddau fod y ddau yn ôl hefyd," meddai Huw.

Ar wahân i raglen gyfan o ganeuon Tony ac Aloma a'u gwesteion 'Gwlith', bydd y rhan fwyaf o brif artistiaid Cymru yn canu ar Taro Tant hefyd – Rosalind a Myrddin, Traed Wadin, Plethyn, Eirlys Parri, Leah Owen a Trebor Edwards.

Bydd cyfle i weld nifer o 'fideos' arbennig yn ystod y gyfres. Caneuon yn amrywio o gynnyrch Triawd y Coleg i Derec Brown a'i Racaracwyr.

Meddai Huw Jones am y gyfres newydd:

"Unwaith eto amrywiaeth gerddorol wedi'i gynllunio i blesio'r glust Gymreig yw 'Taro Tant'."

A phlesio wnaeth y ddwy gyfres gyntaf, gan fod y rhaglen yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd yn hanes S4C.

O BANTRI BETH



TORTH CYW IÂR A CHIG MOCH

Cynhwysion:

8 owns cyw iâr wedi'i goginio
8 owns cig moch wedi'i goginio
3 owns o fara gwyn
2 wy
1 llond llwy de o fwstard pupur, halen ac ychydig o barsli a joch o saws Caerwrangon

Gorchuddiwyd dun torth â phapur gloyw (foil) ac irwch efo menyn. Rhowch y cyw iâr, y cig moch a'r bara drwy falwr. Ychwanegwch gweddill y cynhwysion ond am yr wyau. Curwch y rhain yn dda ac wedyn eu hychwanegu i'r cymysgedd. Llenwch y tun a'i orchuddio efo'r papur gloyw a'i goginio nes y bydd yn gras mewn ffrwn 350 F (tua deugain munud). Gadwch iddo oeri tipyn yn y tun a'i fwyta'n gynnes efo'r llysiau arferol neu ei adael i oeri'n gyfan gwbl a'i gael efo salad neu bicl o ryw fath.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£10: Er cof am Mr Richard Mostyn Thomas, (Dic Rhydau), Fferm y Rhydau, Deiniolen.

£5: Mrs Hugh Alun Jones, Panania, Awstralia. Mr a Mrs W.A. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug.

£3: Mrs Dorothy Jones, 5 Talybont, Llanrug. Mr Morris Ivor Jones, 3 Galaxy Grove, Rosehill,

Gohebydd – Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

LLONGYFARCHIADAU: i John ac Elizabeth Evans, Blaen Parc ar ddathlu eu priodas arian ar Chwefror 14 ac i Mr a Mrs Hugh Hughes, Cremlyn oedd yn dathlu 45 mlynedd o fywyd priodasol ddydd Sadwrn, Chwefror 25. Ddydd Mawrth, Chwefror 21 roedd Mr a Mrs John Williams, Ty'n Ronnen yn dathlu 54 mlynedd o fywyd priodasol. Dymuniadau gorau i'r tri teulu.

DIOLCH: Dymuna John ac Elizabeth Evans, Blaen Parc ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion gwerthfawr, blodau hardd, llu o gardiau a galwadau ffôn a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Arian ar Chwefror 14.

Diolch hefyd i staff Gwesty Gwynedd Llanberis am drefnu pryd ardderchog i'r teulu.

Llongyfarchiadau i nifer o blant yr ardal sydd wedi dathlu eu pen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar neu fydd yn dathlu yn ystod y mis. Roedd Angela Williams, Tŷ'r Ysgol yn ddeunaw ar Chwefror 9ed a bydd Aneurin Jones, 33 Bro Rhos yn dathlu ar y 9ed o Fawrth a Siân Morgan, Llwyn Bedw ar Fawrth 17. Bydd Lynn Morgan, Llwyn Bedw yn dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed ar Fawrth 11. Dymuniadau gorau iddynt i gyd.

DIOLCH: Wedi bod yn gyfrifol am ddosbarthu'r Eco yn y cylch o'r cychwyn ar wahân i ychydig fisoedd pan fu'r teulu'n byw yn y Felinheli mae Mrs Jean Jones, Wenallt wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r gwaith. Mae llwyddiant yr Eco yn dibynnu yn llwyr ar waith distaw a chyson gweithwyr fel Jean. Hoffwn nodi ein diolch a'n gwerthfawrogiad am ei llafur a diolch iddi hefyd am gytuno i barhau i werthu yn y Cremlyn. Diolch hefyd i Mr a Mrs Stanley Griffith, Tre Gof am fod mor barod i gymryd y gwaith trosodd. Rwy'n siŵr y bydd yr holl werthwyr yn awyddus i ysgafnhau eu baich hwythau ac yn trefnu i fynd â'r arian am yr Eco i Dre Gof yn brydlon bob mis.

ASTUDIO'R TORGOCH

(Parhad o'r dudalen flaen)

Cewch gyflwyno'r pysgodyn neu'r label a'r manylion i Dr Llŷr Gruffydd yn Oriel Eryri, Llanberis – neu yn unrhyw un o'r gwestyau

DYDDIADAU I'W COFIO

Mawrth 30 DEINIOLLEN – Bingo yn Neuadd y Seindorf am 7.30.

31, Sadwrn – LLANBERIS – Y Cwmni Drama yn perfformio 'Pedwarawd mewn B Fflat' ym Mhontypridd.

Ebrill 6 – Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys, Waunfawr am 6.30.

Ebrill 28 – Gŵyl Lafur Bangor.

MAM A'I PHLENTYN: Dewiswyd swyddogion newydd i'r cylch mam a'i phlentyn yn ddiweddar. Y llywydd yw Eluned Davies, Trysorydd Nan Rowlands, ysgrifennydd June Owen. Dewiswyd Ellen Ellis, Sulwen Thomas, Margaret Rees, Alys Peters, Glenys Griffith ac Eirlys Williams i weithredu ar y pwyllgor.

Mae croeso i unrhyw fam i ymuno â'r cylch yn y Neuadd Goffa ar fore Mercher o 9.30 ymlaen.

CYDYMDEIMLO: Ddydd Gwener, Chwefror 24 ym Mhlas Ogwen bu farw Mrs Catherine Ellen Jones, Bronallt gynt. Mrs Jones oedd aelod hynaf y Cysegr. Bu'r angladd yn y capel ddydd Mercher diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.

BEDYDDIO: Ar Chwefror 12 yn oedfa'r bore yn y Cysegr bedyddiwyd Bethan Mair, merch Mr a Mrs Gwynne Parry Jones, Fairways, 15 Tan y Buarth, a John Gavin Jones mab Mr a Mrs Meirion Wyn Jones, Fro Dawel, Llanrug.

YR URDD: Nos Wener, Mawrth 9 cynhelir Noson Goffi yn y Neuadd am 6.30. Bydd cyfle i gael gweld a chlywed y plant yn perfformio cyn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Brynrefail.

CLWB BRO BETHEL: Bu aelodau Clwb Bro Bethel yn dathlu Gŵyl Ddewi eleni gyda chinio yng Ngholeg Pencraig, Llangefni ar Fawrth 1af.

CASGLU: Ym Methel y bydd yr Eco nesaf yn cael ei gasglu nos lau, Mawrth 29. Gobeithio y gall criw da ddod i'r Neuadd i helpu ac i ysgafnhau'r baich.

MINI MARATHON: Bu saith o fechgyn y pentref yn rhedeg ym Mini Marathon Porthaethwy ar Ionawr 29. Rheddodd y bechgyn chwe milltir gan orffen yn Ysgol David Hughes.

Yr oeddynt yn casglu arian at achos y galon. Y bechgyn oedd: David Jones, Tyddyn Oer, Dewi a Huw Williams, Cefn Gwyn, Myfyr Jones, Glan Gors, Elwyn Parry, 11 Tan y Buarth, Russell Williams, Hafod, Aled Jones, Fachell.


Mae
G. JORDAN
CEFN ELAN
LLANRUG

wedi prynu
busnes

**ERIC GOVER
LLANBERIS**

I fenthyg
cymysgwyr
concrit, cludo
llwythi ysgafn,
clirio safleoedd a
sbwriel ac am
dywod, gro, brics
ynghyd â gwaith
trydanol fel o'r
blaen

Ffoniwch:
**CAERNARFON
3581**



Disc werdd gyda rhif

Labelau bachog

dyma rai o'r mathau a welir



Uchod – Labelau cyffon a dorsal a wthiwyd i mewn o'r ochr dde.

Isod – Labelau a wthiwyd i mewn o'r chwith.



ACHLYSUR ARBENNIG O'R GORFFENNOL



Barod efo'r chwydd-wydr 'na? Dyma lun fydd yn dwyn atgofion i rai ohonoch. Chwarelwyr yn sicr yw'r mwyafrif o'r cymeriadau, ond beth yw'r achlysur a phryd y tynnwyd y llun? Ein diolch i G. Humphreys, 2 Tyn Lôn, Felinheli am gael benthg y llun.

SIBRYDION O'R YSGOLION YSGOL BRYNREFAIL

YMDDEOL: Wedi un mlynedd ar hugain o lanhau'r ysgol, mae Mrs Alice Evans, Llanrug yn ymddeol. Mae pawb yn yr ysgol yn diolch iddi am ei gwasanaeth, ac yn dymuno'n dda iddi yn y dyfodol.

CYFNEWID FFRANGEG: Yn ystod y mis nesaf bydd criw o blant o Gourin, Llydaw, yn ymweld â'r ardal, fel rhan o gyfnewid ag Ysgol Brynrefail. Byddant yn aros gyda theulu oedd yr ardal; a gobeithio y cânt groeso cynnes gan bawb.

EISTEDDFOD YR URDD: Mae'r ysgol yn brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Pob hwyl i'r holl gystadleuwyr yn yr eisteddfodau Cylch a Sir. Ymddengys rai o'r canlyniadau yn y rhifyn nesaf.

GWISG YSGOL? Dydd Gwener, Chwefror 17, roedd golwg od iawn ar bawb yn yr ysgol - y disgyblion yn eu dillad eu hunain a rhai o'r athrawon mewn gwisg ysgol. Bu'r newid er mwyn casglu arian at achos da - roedd pawb yn talu 20c am yr hawl i wisgo i fyny. Casglwyd £100 ac fe roddir yr arian i gronfa'r cystic fibrosis, ymchwil i glefyd yr iau (wedi i bawb weld Ben Hardwick ar 'That's Life'), a Help the Aged (bydd un o'i siaradwyr yn ymweld â'r ysgol cyn bo hir). Diolch i bawb am eu hymdrechion, rhai'n llawn dychymyg ...!

YR URDD: Bu'r ardalwyr yn hael eu hymateb i ddwy apêl a wnaed gan yr Urdd yn ddiweddar.

Anfonwyd £42, sef casgliad y noson garolau yn Ysgol Brynrefail, i gronfa'r Ffynhonnau i gynorthwyo suddo ffynhonnau dŵr yn India.

Casglwyd £101 yn y cynllun 'Punt y Pen', gyda Michelle Jones a Lynette Evans yn casglu'n neilltuol o dda.

Diolchir yn gynnes am y gefnogaeth i'r ddwy apêl yma.

NOSON GOFFI'R URDD: Bydd adran yr ysgol yn cynnal noson goffi yn Ysgol Brynrefail, Llanrug nos lau, Mawrth 22, 6.30-8.30 pm. er mwyn codi arian i yrru cystadleuwyr i Eisteddfod yr Urdd.

ATHLETAU: Mae Michael Roberts (Cwm-y-glo) wedi ei ddewis i fynd ar gwrs athletau yng Nghaerdydd yn ystod mis Mawrth. Mae'r ffaith ei fod ymysg yr ychydig o Gymru gyfan i gael ei ddewis i fynychu'r cwrs yma yn awgrymu fod Michael yn cael ei ystyried yn athletwr addawol dros ben gyda siawns dda o gael ei ddewis i'r tîm cenedlaethol yn y dyfodol.

Mae Michael yn arbenigo mewn



Pob hwyl ar y cwrs Michael.

hyrddio'r pwysau. Fe ddaeth yn 5ed drwy Gymru yn y gystadleuaeth i fechgyn dan 17 oed yr haf diwethaf ac y mae yn ddigon ifanc i gystadlu o dan yr un oedran eto eleni. Michael sydd yn dal record Ysgolion Gwynedd yn y gystadleuaeth yma ac y mae yn dal y record ysgol i fechgyn dan 13 oed, dan 15 oed ac o dan 18 oed.

TRAWS GWLAD: Ar Chwefror 2il fe aeth amryw o fechgyn a genethod yr ysgol i dreialon traws gwlad Ysgolion Arfon ym Mangor. Dewiswyd Paul Prydderch (Llanberis), Martin Owen (Bethel), Mathew Ward (Llanrug), Russell Williams (Bethel), Martin Roberts (Llanrug), Ian Evans (Llanberis), Rhian Lewis (Deiniolen), Melanie Sellers (Llanberis), Anna Wood (Ceunant), Gillian Glass (Llanberis) a Wendy Roberts (Llanberis) i redeg yn nhreialon Ysgolion Gwynedd wythnos yn ddiweddarach. Fel canlyniad mae Russell Williams, Rhian Lewis, Melanie Seller ac Anna Wood wedi eu dewis i gynrychioli Ysgolion Gwynedd yn y cyfarfod cenedlaethol.

PÊL-DROED: Ysgol Dyffryn Ogwen (oddi cartref): Dosbarth 1, enill 4-1. Dosbarth 3, ennill 6-1.

PÊL-RWYD: Dosbarth 2, enill 10-5. Dosbarth 4, colli 15-8.

TWRNAMEINT PÊL-DROED 5-BOB-OCHR: (dan 14 oed) Cynhaliwyd y twrnameint yng Nghanolfan Chwaraeon Caernarfon. Fe gyrhaeddodd tîm 'A' a thîm 'B' yr ysgol y rownd gyn-derfynol ond yn anffodus fe gollodd y tîm 'A' i Botwnnog 2-1 ac fe gollodd y tîm 'B' i Gaernarfon 3-1. Porthmadog aeth ymlaen i ennill yn y rownd derfynol. Terry Saynor (Llanberis) oedd y chwaraewr a sgoriodd fwyaf o golïau yn y twrnameint. Rhoddodd y bêl yng nghefn y rwyd ddeg o weithiau.

LLONGYFARCHIADAU: i Malcolm Allen (Deiniolen) cyn-ddisgybl o'r ysgol ar ennill ei gap cyntaf i dîm

DYN DŴR NEWYDD YNG NGOGLEDD CYMRU

Cyhoeddwyd heddiw mai rheolwr adran ogleddol newydd Dŵr Cymru fydd T. Gordon Jones sydd, ar hyn o bryd, yn swyddog peiranydda ariannol yn adran Gŵyr.

Er iddo gael ei eni a'i fagu yn Cumberland mae Mr Jones yn Gymro Cymraeg.

Brodor o Ynys Môn oedd ei dad, a'i fam o Goedpoeth, ger Wrecsam. Gyda'r rheilffordd y gweithiai ei dad ac oherwydd galwadau gwaith symudodd â'i deulu i Cumbria. Yn ffodus roedd y gwaith yn galluogi iddynt deithio'n rhad ar y rheilffordd. Bu Gordon Jones felly yn treulio'r gwyliau ysgol i gyd ar fferm ei fodryb ym Môn neu gyda'i nain yng Nghoedpoeth gan roi'r cyfle iddo ymarfer ei Gymraeg.

Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Caerlywelydd wedyn yng Ngholeg y Brenin, Prifysgol Durham. Bu'n astudio yng Ngholeg Rheolaeth Ashbridge ym 1973.

Bu'n brif gynorthwywr peiranydda efo adran ddŵr Cyngor Sir Fôn, 1964-68 cyn symud i weithio efo Bwrdd Dŵr Gorllewin Cumberland (dirprwy beiranyddwr, 1968-75) ac Awdurdod Dŵr y Gogledd Orllewin (peiranydd adranol, 1974-75).

Ymunodd ag Awdurdod Dŵr Hafren-Trent, yn beiranydd adranol cynorthwyol, ym 1975, ac yna ymunodd efo Dŵr Cymru fel swyddog gweithrediadau adranol Gŵyr ym 1980, gan weithio o Abertawe. Fe'i gwnaed yn swyddog peiranydda'r adran ym 1982.

"Roeddwn yn falch o'r cyfle i ddychwelyd i Gymru ac 'rwyf wedi mwynhau fy nghyfnod yn Abertawe yn fawr iawn, yn enwedig gan i mi fedru canu efo Côr Meibion Dyfnant," meddai. "Eto, wrth ymgymryd â'r swydd hon ym Mangor teimlaf, mewn gwirionedd, fy mod yn mynd adref - er na fûm yn

ieuenctid Cymru yn erbyn Iwerddon. Fe fydd gêm nesa'r tîm ieuenctid yn Wrecsam yn erbyn yr Alban ar Fawrth 13. Mae'r ysgol yn rhedeg bws i'r gêm.

byw acw'n iawn erioed."

Ynglŷn â'r swydd newydd, dywed: "Mae'r swydd yn un wefreiddiol iawn. Rhaid asio efo'i gilydd y ddwy adran bresennol i ffurfio un uned bwrpasol a fydd yn parhau â'r gwaith o ddatrys y problemau sydd o fewn yr ardal. Mae'n ollbwysig ein bod yn dal ati heb golli unrhyw gymhelliad yn wyneb y mân drafferthion sy'n sicr o fodoli. Rhaid ceisio hefyd osgoi gostwng safon y gwasanaeth a rown i'n cwsmeriaid."

Mae Mr Jones yn 51 oed ac yn briod efo 4 o blant.

Mae Trefnydd
Hysbysebion Eco'r
Wyddfa yn chwilio
am rhywun i'w
helpu gyda'r
gwaith o gasglu
hysbysebion.

Cyfle rhagorol i
helpu'r papur bro,
dod i adnabod
gŵyr busnes y
cylch a dysgu'r
grefft o werthu.

Cysyllter â
John Roberts,
Trefnydd
Hysbysebion
Eco'r Wyddfa,
Bedw Gwynion,
Llanrug.
Ffôn: Caernarfon
5605

CYMERIADAU HYNOD

SIÂN DAFYDD – HELFA FAWR CWM BRWYNOG

"Diniweidrwydd a gonestrwydd oedd nodweddion yr hen drigolion, ac os oeddynt yn anwybod, roeddynt yn ddi-falais a di-ragrith" – dyma ysgrifennodd W. Williams amdanynt yn ei lyfr ym 1892.

Ia, pobl onest iawn oeddynt. Pan yn gwneud borgen roedd ysgwyd llaw yn ddiogel i selio popeth. Ceisient dalu eu ffordd drwy gynildeb a darbodaeth, ac roedd eu bywyd yn dawel a digyffro.

Gwraig felly ydoedd Siân Dafydd, Helfa Fawr. Un dawel, garedig a gweithgar. Gweithiai nid yn unig yn y tŷ, ond â chaib a rhaw i drin y tir; a chario cerrig ambell dro i adeiladu at y tŷ henffasiwn a'i simdde fawr.

"Ar ganol yr aelwyd roedd llwyth o dân mawn

A phawb ar ei oreu yn dangos ei ddawn."

Byddai yn mynd i'r mynydd i hel grug, a chasglu mawn a'u cludo i ochr y tŷ i sicrhau tanwydd dros y gaeaf.

Byddai pobl yn credu fod y Cymry yn dra hygoelus, yn credu pob stori a adroddid ar lechweddau'r mynyddoedd, ynghylch â chewri a thylwyth teg a'r cyffelyb. Nid yw'r cyhuddiad yn wir amdanom wrth gwrs, ond yn y blynyddoedd a fu credai rhai y straeon od yma, a Siân Dafydd, Yr Helfa, a fyddai'n adrodd dro ar ôl tro ar hyd ei hoes pa fodd y gwelodd bugail un o'r tylwyth teg ar wyneb Llyn Du'r Arddu a syrthiodd mewn cariad â hi. Priodwyd y ddau wedi cytuno yn ôl ("Celtic Folklore, John Rhys 1901") nad oedd y gŵr i'w tharo hi â dim o ddefnydd haearn, a'i bod hithau i ddwyn iddo yntau bob math o dda byw. Buont yn ddedwydd am flynyddoedd hyd rhyw ddiwrnod anffodus, pan daflodd y gŵr gyfrwy'r merlyn i'w wraig wrth iddynt geisio dal y merlyn. Tarawyd y wraig ifanc gan haearn y cyfrwy a dyna hi a'r holl dda byw oedd ganddynt yn diflannu i'r llyn ac nis gwelwyd byth mwy.

Blynyddoedd a blynyddoedd ar ôl stori Siân Dafydd byddai mamau yn rhybuddio eu plant i gadw draw o'r llyn rhag digwydd i'r tylwyth teg fod yn dawnsio wrth ymyl y llyn a'u cipio i'w cartref o dan y dŵr. Credai Siân Dafydd hefyd fod cartref y tylwyth teg, rhai da a rhai drwg, o dan y Foel Eilio.

Mae Syr John Rhys yn sôn am yr hyn a ddigwyddodd i'w briod,

merch o ochrau Llanberis i'r Wyddfa pan oedd yn blentyn bach.

"Hi aeth un bore gyda Chadi y forwyn ar ymweliad â rhieni honno yng nghymdogaeth Rhyd-ddu. Wedi cyrraedd ei chartref canfu fod dolur ar goes un o'i chwiorydd, ac wedi i'w mam dynnu'r clwt oddi ar y dolur, archodd i un o'r plant eiddodi ar ddraenen oedd yn tyfu wrth ddrws y tŷ, a hynny er mwyn i'r tylwyth teg sicrhau fod y dolur yn gwella yn gynt."

Roedd amryw o straeon o'r fath yn frith yn y gymdogaeth, ac er bod crefydd ac addoliad yn lledaenu, cariwyd y straeon o genhedlaeth i genhedlaeth. Codwyd capel Hebron ym 1833 a byddai Siân Dafydd yn un o'r ffyddlonaf gyda'r achos, er ei bod yn hoff o gofio'r straeon hyd ddiwedd ei hoes ym 1865.

Tra yn sôn am straeon rhyfedd, dyma stori a ysgrifennwyd gan Hobley. "Fe fyddai Owen Owen y Cwmglas Bach, bob tro yr âi heibio'r Clogwyn Talgae yn yr hwyr, yn myned ar ei liniau i weddïo am amddiffyn yn wyneb y gred y blinid y lle gan ysbryd drwg. Bu Owen Owen farw rai degau flynyddoedd ar ôl cyhoeddi Llyfr Williams Llandegai.

Mae eto i'w weled oddi fewn i simdde'r Brynglas, Nantuchaf, groes garreg, undarn, wedi ei chludo yno, debygir, er cadw'r ysbrydion drwg o'r tŷ. Ni wyddis oedran y tŷ na phryd ddiwethaf y ffynnai'r gred yn effeithiolrwydd y groes garreg."

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL UNDEBOL:

Nos Iau, Chwefror 2, yn y Ganolfan, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Miss Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawnog, ar hanes 'Hen Siopau yn Ninorwig a Deiniolen'. Ffrwyth nodiadau gan ei mam, Mrs Mary E. Jones, Ty'n Fawnog, oeddynt. Daeth Mrs Jones yn ail yn Eisteddfod yn Neiniolen ar y testun. Yn y cyfnod y soniwyd amdano roedd tua 25 o siopau bychain yn Ninorwig yn cyflenwi angenrheidiâu o bob amrywiaeth, o fara, cig, cryddion, swyddfa post ac yn y blaen. Erbyn heddiw nid oes yr un siop na phost yn yr ardal! Mwynhawyd y sgwrs yn fawr iawn gan yr aelodau. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian. Cyflwynwyd y siaradwr i'r aelodau a diolch iddi gan Mrs Roberts.

Nos Iau, Chwefror 15 cafwyd sgwrs gan Mrs M.J. Roberts, Bodorgan, Môn, ar 'Hen Ewyllysiau'.

Olrheiniodd hanes rhai o'r hen ewyllysiau a'u cynnwys. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Hugh Williams, Paradwys, Gaerwen, ac efa gyflwynodd y siaradwr i'r gymdeithas. Bu trafodaeth gan yr aelodau a mwynhawyd y sgwrs.

Yn ystod y cyfarfod cydymdeimlwyd â dau o swyddogion y Gymdeithas, sef Mrs Betty Peris Roberts, Llywydd y Gymdeithas, a fu am lawdriniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon, a hefyd Mr David J. Thomas, Ysgrifennydd y Gymdeithas, oedd o dan y fflw. Dymunwyd gwellhad buan a llwyd i'r ddau.

Ein cofion at bawb sy'n cwyno yn eu cartrefi y dyddiau hyn. Brysiwch wella.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian ddiolch o galon i'r cymdogion, a'r teulu, y meddygon a'r gweinyddesau, a bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra bu am driniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon, a hefyd wedi dod gartref. Diolch yn fawr.



Chwarelwyr Ponc Pen Garret yn 1956. Llun gan A.W. Evans, Deiniolen.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

Sefydliad y Merched; Yng nghyfarfod y mis yn yr ysgol fach, cafwyd noson ddiffr dros ben yng nghwmni Mr Gwyn Hefin Jones o Gwm-y-glo. Cafwyd ffilmiau diddorol o'i grwydriadau ym Mhrydain ac ar y cyfandir. Darparwyd y te gan Sheila Williams a Rhian Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Val Davies ac fe'i enillwyd gan Jinnie Williams. Cafwyd adroddiad hefyd gan Jenny

Hughes o'r cyfarfod blynyddol rhabarthol yng Nghaernarfon.

CLWB Y MAMAU: Eto yn yr ysgol fach, daeth yr aelodau ynghyd i fwynhau arddangosiad o drefnu blodau gan Vera Price a Dora o Gwm-y-glo. Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston ac fe'i enillwyd gan Shirley Roberts – rhoddwyd anrheg ychwanegol o dusw o flodau gan Vera Price, a Pat Jones a fu'n

lwcus y tro hwn. Audrey Roberts a Mair Williams a fu'n gyfrifol am y te.

CLWB PEDWARUGAIN: Enillwyd mis Ionawr: Ionawr 6 – 1. Geraint Roberts, 2. Gwilym Jones, 3. Jennie Roberts. Ionawr 13 – 1. Will Hughes, 2. Dilys Jones, 3. John Williams. Ionawr 20: 1. Jenny Hughes, 2. Dilys Jones, 3. Meurig Jones. Ionawr 27 – 1. Shirley Roberts, 2. Arthur Jones, 3. Gary Jones.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

LLONGYFARCHIADAU: i Llinos Thomas, Caernarfon, (21 Dôl Afon gynt) ar gyrraedd ei phen-blwydd yn un ar hugain.

WEDI GWELLA: Da iawn yw deall fod Mr Jack Jones, 21 Dôl Afon, yn gwella'n foddhaol ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Jack Jones, 21 Dôl Afon, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd, am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd Mr Jones tra yn ysbyty Walton, Lerpwl, Ysbyty Môn ac Arfon ac wedi dychwelyd gartref.

COFION: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Annie Jones, 3 Bryn Gro sydd yn aros gyda'i mab yng Nghaernarfon dros fisoedd y gaeaf, ac hefyd at Mrs Nesta West, Craig y Don, sydd yn yr ysbyty.

CLWB PÊL-DROED CWM-Y-GLO: Cynhelir noson 'Bingo' nos Wener, Mawrth 23 yn y Ganolfan Gymdeithasol am saith o'r gloch.

CLWB POBOL Y CWM: Yng nghyfarfod o'r clwb, lonawr 19, cawsom sgwrs ddiddorol gan Mr Cledwyn Williams, cyn-brifathro Ysgol y Cwm. Soniodd am amryw o'i brofiadau, yn arbennig ei gyfnod tra'n gwasanaethu gyda'r lluoedd arfog yn y Dwyrain Pell. Croesawyd ef gan y llywydd, Mr Llew Hughes. Rhoddwyd y te gan Mrs West a Mrs R. Parry, a'r raffl gan Miss M. Davies.

Enillwyd y raffl gan y gŵr gwadd.

Pnawn lau, Rhagfyr 2 daeth Swyddog Atal Trosedd o'r Heddlu i sôn am amryw o ffyrdd i ddiogelu cartrefi rhag troseddwyd. Dangosodd sleidiau i ddangos mor gyfrwys yw y rhai sydd yn manteisio yn arbennig ar yr henoed a'r diamddiffyn. Diolchwyd iddo gan y llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs Morris, y Becws a Mrs R. Rowlands a'r raffl gan Mrs Williams, Pantafon. Enillwyd y raffl gan Mrs Hughes, Bryn.

Croeso a dymuniadau da i Miss A. Parry, Graig-y-don sydd wedi dychwelyd yn ôl i'w chartref ar ôl ysbaid yng nghartref mamaeth Canol Cae Penrhyndeudraeth.

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod mis lonawr gwnaed trefniadau am gyfarfodydd y tymor. Rhoddwyd y te gan y ddwy ysgrifenyddes Mrs Marjorie Roberts a Mrs Iris Rowlands. Mrs Verna Jones enillodd y raffl. Mis Chwefror trefnwyd rhaglen cwis gan y llywydd Mrs Hannah Jones a chawsom noson hwyliog ac addysgol gyda chwestiynau ar amrywiaeth o bynciau.

Cafwyd adrodd o'r Pwyllgor Anabl gan Miss Mat Pritchard. Rhoddwyd y te gan Miss Pritchard a Mrs Verna Jones ac enillwyd y raffl gan Mrs Nellie Pritchard. Y cyfarfod nesaf fydd dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Gwynedd nos Fercher, Mawrth 21, Mrs Marjorie Roberts yn gwneud y trefniadau.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)

EGLWYS SANTES HELEN: Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Mrs E.M. Pritchard, 4 Bryn Hyfryd Terrace, yn ei phrofedigaeth. Bu farw Mr R. Pritchard yn ysbyty Dewi Sant Bangor ddydd lau Chwefror 2. Cydymdeimlwn â Mrs Wood a'r teulu, Bryn Arthur, yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl. Bu farw Mr Wood yn dilyn cystudd hir. Cydymdeimlwn â Mrs Rose Jones a Mr Ken Mowll wedi colli chwaer a modryb yn Lerpwl.

Yr ydym yn dymuno adferiad iechyd buan i Mr J. Pritchard, Pen y Sarn, sydd wedi cael llawdriniaeth ym Mangor.

Croesawn yn ôl y Parch Aled Edwards a fu ar bererindod i Israel yn ystod mis lonawr. Cafodd ymweld â nifer o fannau sydd yn enwau cyfarwydd iawn i ni Gristionogion.

Cydymdeimlwn â theulu y

ddiweddar Mrs S. Humphries, Y Winllan yn eu profedigaeth o golli mam annwyl, ac hefyd gyda Mr a Mrs Owen Thomas, Tai Newyddion ar golli chwaer yng nghyfraith yn y Felinheili.

GWELLHAD BUAN: Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr M. Lamb, 2 Bryn Eglwys, ac hefyd i Christopher Turner, Tyddyn Diffr. Da gennym glywed fod Mr J. Griffiths, Cerrig Gwynion, gartref ar ôl bod yn yr ysbyty.

EISTEDDFOD Y PENTREF: Cofiwch am y 'Cawl a Chân' gydag Arwel Jones, Pant Hywel, nos Wener, Mawrth 9 am 6.30 o'r gloch. Tocynnau - oedolion 25c, plant a phensiynwyr 10c.

DIOLCH: Dymuna Mrs E.M. Pritchard, 4 Brynhyfryd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad â dderbyniodd ar yr achlysur trist o golli ei phriod annwyl. Diolch yn fawr i bawb.

LLONGYFARCHWN Arfon Jones, Cae Corniog ar gyrraedd ei ddeunaw oed. Dymuniadau da i Nia Parry, Tawelfa ar ddechrau ei gyrfa gyda'r Heddlu.

DRAENOG



A beth feddyliech chi o'r creadur hwnnw aeth i chwilio am ei frws siafio a chanfod fod ei fam yng nghyfraith yn ei ddefnyddio i lanhau ei dannedd gosod - tra yn ei cheg!

"Mae Natur yn iachau: mae'r meddyg yn gweinyddu."
Paracelsus - o'r unfed ganrif ar bymtheg.

Y Milwr

Noson oer o aeaf oedd hi pan gwrddais ag ef gyntaf. Roeddwn ar fy ffordd y Sul hwnnw o dŷ capel Nantpadarn, Llanberis, i gapel Jerusalem, ac i alw mewn tŷ ar y ffordd yno. Roedd y 'blacowt' yn dal mewn bodolaeth, er bod y rhyfel wedi dod i ben, pan ddaeth milwr tâl i'm cyfarfod wrth imi droedio i stryd y pentref. Wedi fy nghyfarch yn foneddigaidd, gofynnodd ai capel Annibynnol oedd Nant Padarn. Dywedais mai felly oedd hi, a'i fod yn siarad gyda'r gweinidog, ond yng nghapel Jerusalem y byddwn yn gwasanaethu y noson honno. Wedi holi ymhle oedd y capel, dywedodd y byddai yno yn gwrando. Ond ni ddaeth, ac yn nes ymlaen yr un noson galwodd i'm gweld, ac i ymddiheuro am i absenoldeb, gan i rwystr ddod ar ei ffordd. Gwahoddwyd ef i gael swper gyda ni, a phan ddywedwyd wrtho am ddechrau bwyta, gofynnodd am gael dweud gras, ac wedi plygu lawr, llefarodd hi yn ddistaw, a'r un peth ar ddiwedd y pryd bydd hefyd. Mor hawdd fyddai iddo roddi gorau i'r arferiad mor bell oddicartref.

Wedi swper daeth cyfle i gael sgwrs, a gwelais ei fod yn llanc diwylliedig iawn, ond cyfyng ei wybodaeth am wledydd, nid oedd erioed wedi clywed gair am Gymru a'i haith, a chafodd lyfr neu ddau i'w oleuo. Syrfewr ydoedd yn ei waith bob dydd, ond caethiwyd ef a'i rieni gan yr Almaenwyr, a bu ei deulu yn bwyta bylbiau blodau i gael byw.

Ni chredai mewn teithio ar y Suliau, ond eto ni welai ddim o le mewn chwarae pêl-droed ar y Sul. Bu mewn oedfa yn y bore yn y capel Saesneg yng Nghaernarfon, ond er ei fod yn deall yr iaith, nid oedd yn fodlon teithio yno ar y Suliau, ac felly penderfynodd mai yng nghapel yr Annibynwyr yn Llanberis y byddai yn addoli, gan eu bod yn nes at athroniaeth Martin Luther.

Bu'n bwyta amryw o brydau bwyd yn ein tŷ, a chael golchi ei ddillad, ond yn fwy na dim deuai cyfle iddo i eistedd ac anfon gair gartref i'w deulu, yn yr Hague yn 'Heol Eirlys', (roedd enwau blodau ar strydoedd yn y rhan honno o'r ddinas). Bu'n ffyddlon yn yr oedfaon, a

gofalwn am ddweud wrtho ymhle yn y Beibl y darllenwn, ac felly byddai cyfle iddo yntau ddilyn ei Feibl ei hun. Wedi dychwelyd o'r oedfa, byddai am gael gwybod rhediad y bregeth. Aeth yr wythnosau heibio, a daeth gorchymyn iddo ef a'i gyd-filwyr i fyned i'r Dwyrain Pell i ryddhau yr ynysoedd o ddwylo milwyr Japan.

Daeth un llythyr oddiyno, ac yna tawelwch llwyr - 'Digwyddodd, darfu, megis seren wib'. Bûm yn meddwl ganwaith beth a ddigwyddodd iddo - tybed a gafodd fedd yn fforestydd a chorsydd y Dwyrain Pell, neu a ddychwelodd at ei deulu yn yr Iseldiroedd - nid oes ateb, ac erbyn hyn aeth ei enw hefyd i ddifancoll.

Y Parch L.G. Roberts,
Melangell,
Ffordd Ysgubor Wen,
Caernarfon.

CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR

CWMNI YSWIRIANT Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros 100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR,
CEUNANT, TAN-Y-COED
a BETWS GARMON

GARETH JONES

Glyn Ceris, Waunfawr.
(Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS,
CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL
a DINORWIG

WILLIAM ROBERTS,

Hyfrydle Road, Capel Coch,
Llanberis (870471)

DEINIOLLEN, PENISARWAUN,
SEION, LLANDDEINIOLLEN,
TREGARTH, M. LLANDEGAI

JOHN R. JONES

Clarke Terrace, Ffordd Llanberis,
Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW'
YNGLŶN Â'CH
HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR
EICH AELWYD

Prudential

**NOSON GOFFI
C.N.D.
PERIS**

Nos lau,
Mawrth 15ed
am 7.30

**CANOLFAN
LLANBERIS**

Stondinau
Amrywiol

Ffiniau'r Gorffennol

Y CLEGIR

Annwyl im fro fy ngeni - y Clegir,

Pob clogwyn ohoni,
A charaf hynt ei chewri:
Daw mawr les o'i hanes hi.
Glan Rhyddallt.



William Lloyd, Ty Newydd, Clegir.

Ysgol y Clegir

Bu fy nhaid, William Lloyd, Ty Newydd (tad fy nhad), yn ysgrifennydd Ysgol Sul y Clegir am gyfnod o ugain mlynedd (1890-1910). Cynorthwyodd hefyd swyddogion y capel gyda'r cyfrifon ddiwedd y flwyddyn am gyfnod maith. Bu'n dda i'r achos ym mhob modd.

Ym mis Gorffennaf 1975 bûm yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn Aberystwyth yn cyflwyno llyfr cyfrifon a llafur Ysgol Sabothol capel bach y Clegir, pentref bychan ddwy filltir i fyny'r mynydd o Lanberis.

Fe wyddwn fod llyfrau cyfrifon o'r fath yn cael eu cadw'n ofalus yn y Llyfrgell Genedlaethol. Agorwyd yr ystafell lle cedwir archifau a chreiriau Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn y flwyddyn 1934. Erbyn hyn y mae'n orlawn o

drysorau.

Ar dudalen flaen y llyfr cyfrifon y mae fy nhad wedi sgrifennu fel hyn:

"Adeiladwyd Ysgoldy y Clegir yn 1836-1837. Atgyweiriwyd yn 1880. Cyn hynny meinciau a drws yn ei ochr oedd yno. Dechreuwyd pregethu ynddo yn 1860. 'Parhaed y Brawdgarwch' oedd y geiriau uwchben y pulpud yn y dechrau ond yn awr 'Gwylia ar dy droed' etc. yw'r adnod sydd yno. Cynhaliwyd cyfarfod dathlu canmlwyddiant Clegir yng nghapel Gorffwysfa, Llanberis, yn Hydref 1936."

Y mae'r llyfr cyfrifon wedi ei gadw yn hynod o lân ar hyd y blynyddoedd. Y mae ysgrifen fy nhaid yn wych. Yn yr oes honno yr oedd dysgu sgrifennu yn gain a dealladwy yn rhan bwysig o waith pob ysgol.

Gweld y Creiriau

Y peth cyntaf a dynnodd fy sylw yn ystafell y creiriau, (fel y dywedais eisoes, eiddo Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd ydynt i gyd), oedd darlun o babell a'r geiriau hyn arni, 'Borrowed tent in which the Forward Movement started at East Moors, Cardiff May 1801'. Edrychais yn hir ar yr hen babell.

Gwelais gwpwrdd cornel a fu'n eiddo i'r Parch William Williams Pantycelyn 1717-1791. Cedwir llestri teiliw gwyn a melyn ynddo - buont yn eiddo Deborah Humphreys, merch y Parch Peter Williams 1723-1796.

Gwelais gwpwrdd gwydr yn y mur, ac ynddo yr oedd llestri cymun capel y Clegir. Cofiaf hwynt yn cael eu defnyddio a'r capel hwn mewn bri ac yn llawn. Oddi tanynt y mae'r llestri cymun a ddefnyddid gan y Parch John Jones Talysarn, a 'pitchfork' Emlyn Evans yn ymyl. Y mae'r ddysgl yno a ddefnyddid gan y Parch Thomas Charles i fedyddio plant yn

CAPEL Y CLEGIR 1936



Tŷ NEWYDD CLEGIR -
CARTREF WILLIAM LLOYD



Nhalybont, y Bala, 1763-1814.

Gwelais siswrn mawr Daniel Owen yr Wyddgrug 1836-1895, a bwndel o agoriadau'r teiliwr, mae'n debyg, yn ei ymyl.

Gwelais hefyd y medalau a

enillodd Dr J. Helen Rowlands, y genhades, ym Mhrifysgol Calcutta 1925-1926.

Yr oedd yn bur anodd i ddod o'r ystafell a ffarfelio â'r atgofion ac â thrysorau'r Saint.

ATGOFION MELYS (am Stabla, Llanrug)

Trof yn ôl atgofion melys
Am drigolion Stablau Ion
Lle bûm byw ymysg hen ffrindiau
Craig y Dinas galwyd hon.

Cofio'n ddwys am Maria Williams,
Harry, Peter a Jack Hughes,
Wil ac Elfed, Mair a Lizbeth,
Teulu hoffus yno'n byw.

Tros y ffordd roedd Mrs Williams
Gyda'i meibion, Idris a Tom
Teulu Llofft oedd yn drws nesaf
'Rhain yn hwyliog ac yn llon.

Is i lawr roedd Guto Ellis,
Brawd caredig, hyfryd wên,
Codi'n fore gyda'r hogiau.
Ras i lawr i ddal y trê.

Yn y rhes roedd Mrs Naylor,
Maggie Thomas, gyda Wil,
Mrs Jones, Liza Ellin,
Hefyd Nowie a Dick Bach Trim.

Pen y rhes roedd brawd Twm Eban,
Maer y rhes adnabwyd hwn
Rhoi cynghorion, a barddoni
Oedd pleserau yr hen Dwm.

Eco'r Wyddfa gododd hiraeth
Hel, am sôn y cylchoedd hyn,
Cawn obeithio fod 'na rhywun
'Nawr yn fyw i gofio'r Bryn.

Cyfansoddwyd gan William Lloyd,
Caernarfon (gynt o Lanrug)

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgryn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

GEIRIAU AR GOLL

Bu ymateb SYFRDANOL i'r cais yn y rhifyn diwethaf am wybodaeth ynglŷn â'r penillion â'u geiriau ar goll. Derbyniais lu o alwadau ffôn a llythyrau; a derbynais groeso brwd a charedig mewn amryw o aelwydydd y fro wrth bicio o un lle i'r llall i dderbyn mwy o wybodaeth am y penillion a'r awdur. Carwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch o galon i bawb a gysylltodd â mi. Ceisiaf grynhoi'r gwahanol sylwadau yma, a rhoi hynny o wybodaeth a gasglwyd **hyd yn hyn**. Gan fod pobl yn parhau i gysylltu â mi, credaf y bydd yn rhaid rhannu'r sylwadau rhwng dau fis (ac efallai dri os pery'r brwdfrydedd!). O un peth rwy'n siŵr, mae llawer o hanes y bardd a llawer o'i waith barddol yn aros heb weld golau dydd. Gobeithio y gwneir cyfiawnder â hynny yn y misoedd i ddod.

Awdur y llinellau oedd David Michael Jones, neu a rhoi iddo ei enw barddol - Dewi Peris. Fe'i ganed yn Llanberis yn 1833, a bu farw Ebrill 17 1891, a'i gladdu ym mynwent Macpelah. Cyhoeddwyd 'Detholiad o Ganeuon Dewi Peris Jones' yn Llanberis yn 1873, ac y mae'n eithaf tebyg fod y penillion am atgofion mebyd y bardd wedi ymddangos ynddo. Methais â darganfod copi o'r gwaith er gwneud ymholiadau yn Llyfrgell Coleg y Brifysgol, Bangor, a'r Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth. Cyhoeddwyd rhywfaint o'i waith hefyd mewn casgliad o'r enw 'Blodau Cudd ar Faes Awen' (golygydd G. Penar Griffiths: argraffwyd gan W. Hughes yn Nolgellau 1906). Ymddangosodd ysgrif goffa iddo yn 'Y Geninen' - Gŵyl Dewi, 1892 gan William Ryle-Davies, Llundain.

Mae'n amlwg ei fod yn fardd poblogaidd iawn yn ei gyfnod, a bod llawer o'i waith wedi eu canu a'u hadrodd yn y chwarel. Mae'r penillion sy'n dechrau 'Ar lechwedd yr Aswy eisteddwn' yn amlwg wedi bod yn rhai poblogaidd iawn ar un cyfnod, a llawer o bobl yn parhau i'w cofio hyd heddiw. Yn anffodus, mae'r cof yn gallu chwarae triciau ac y mae llawer o'r copïau a dderbynais i yn amrywio. Roedd y cyfan ohonynt yn amlwg wedi sgwennu o'r cof, a dyna sy'n cyfrif am yr amrywiadau. Dyma'r fersiwn a dderbynais gan Mr W. Griffith, Deiniolen.

DYFFRYN LLANBERIS

1. Ar lechwedd Yr Aswy eisteddwn
Un nawnddydd yng nghanol yr haf;
Edrychwn ar Ddyffryn Llanberis
A theimlwn gan hiraeth yn glaf;
Am gyfnod fy mebyd
A gwanwyn fy mywyd
Pan oeddwn mor heini a neb ar y ddôl
Ond ofer hiraethu, ddaw ddod dim yn ôl.
2. Mi welaf hen ardal Gell Hirbant
A'r bwthyn wrth odrau y coed
Lle cefais i weled goleuni
Y dydd, y tro cyntaf erioed;
Mae mil o atgofion
Yn codi yr awrhon
Am lu o'm cyfeillion sy'n awr yn y bedd
Ym mynwent Llanberis yn huno mewn hedd.
3. Mi welaf ysgoldy bach Hebron,
Lle annwyl a garwn i gynt
Pan oeddwn i'n hogyn direidus
Yn chwarae â'm pen yn y gwynt
Rwy'n adwaen y bylchau
Y bronnydd a'r brynau
A hefyd frefiadau y defaid a'r wyn
Orweddent yn dawel yng nghanol y brwyn.
4. Mi welaf Tŷ Du lle bu Dewi,
Lle bŵm yn mwynhau llawer awr;
Atgofiaf yr hen eisteddfodau
Gynhaliwn ar aelwyd Coed Mawr;
Lle canem benillion
I'r ceunant a'r afon
Fel beirdd braint a defod, cawn fôr o fwynhad
Wrth gynnal i fyny hen ddeifion ein gwlad.
5. Mi welaf hen gastell Dolbadarn
Fel pe byddai'n gwarchod y fro;
Mae edrych ar hwn yn cyfodi
Hen gampau ieuencid i'm cof;
Ei gelloedd archwiliwn
A mawr y rhyfygwn
'Nôl syniad y plant, canys ynddo
Llochesai ellyllon y Nant.

6. Mi welaf hen eglwys Llanberis
A'r fynwent lle gorwedd fy mam;
Gadawodd fi'n blentyn amddifad
Mewn byd mor agored i gam;
Ond er i mi ei cholli
Ers cymaint o flwyddi
Mae ffydd yn mynegi caf weled ei gwedd
Pan gawn ein cyd-godi tu arall i'r bedd.

7. Yn iach i Lanberis a'i llynnoedd
Ei rheinant, ei chastell a'i choed;
Mi dystiaf mai dyma'r llan harddaf
A welodd fy llygad erioed;
Ei Gwyddfa eirenwog
Ei dolydd meillionog
A'i ffrydiau grisialog, deffroant y bardd
I foli'r olygfa ramantus a hardd.

Mae'r fersiwn a dderbynais gan Mr Gwilym Roberts, Llanberis yn dilyn yn union yr un fath. Dyma'r unig ddwy fersiwn a dderbynais sy'n peidio â gwahaniaethu. Mae'r penillion uchod un ai'n cael eu cymysgu yn y fersiynau eraill a gefais, neu mae rhannau o rai penillion, ac weithiau benillion cyfan wedi eu hepgor. Nid wyf yn honni mai dyma'r fersiwn gywir, ac efallai fod teitl gwahanol i'r gerdd (awgrymiadau eraill oedd 'Atgofion Mebyd', 'Hiraeth', a 'Ar Lechwedd Yr Aswy'). Un ffordd yn unig sydd i roi taw ar unrhyw ddadl: dod o hyd i gopi o'r llyfr 'Detholiad o Ganeuon Dewi Peris Jones'. Os oes unrhyw un â chopi yn ei feddiant, byddwn yn falch iawn o'i weld.

Diolch hefyd i'r rhai a eglurodd ble mae'r 'Aswy'. Meddai Ms Elisabeth Griffith, Deiniolen:
"Yn Ninorwig mae'r 'Aswy' ac

eir yno trwy gymryd y ffordd o'r Allt Ddu i gyfeiriad y Zig-zag. Yna, mynd trwy'r giât am Blue Peris i gyfeiriad Tŷ Powdwr. Mae'r 'Aswy' ychydig cyn cyrraedd Tŷ Powdwr, ac yn llecyn bendigedig ar ddiwrnod o haf."

Mae Mr Morris Ivor Jones, Wrecsam yn egluro hefyd:

"Cadwyd y powdwr mewn adeilad ar ochr Yr Aswy er mwyn bod bellter diogel rhag ofn ffrwydrad. Mae'r olygfa a geir oddi yno yn un o rai harddaf Cymru. Rwyf yn gyfarwydd iawn â'r olygfa oherwydd i ni fel teulu symud i fyw i Lidiart y Clo, Dinorwig, sydd rhwng Yr Aswy a brynau a thomennwyd rwbwl y chwarel; ac enw fy ngartref yno oedd 'Tan yr Aswy'."

Bydd mwy o hanes Dewi Peris yn y rhifyn nesaf, gan gynnwys cerddi eraill o'i waith oedd yn boblogaidd iawn ar un cyfnod.

* * *

Derbyniwyd cais hefyd gan Mr Goronwy Lewis, Llanberis, yn holi am wybodaeth ynglŷn â'r canlynol:

"Mi welais oen bach yn cysgu
Yn ymyl y garreg wen
A ... o'i gwmpas
A choron o ddrain uwch ei ben."

Beth sydd ar goll? Oes mwy o benillion? Pwy yw'r awdur? Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau neu ffoniwch Caernarfon 3515.



Dyma ran o'r olygfa a welir o'r 'Aswy' Dinorwig.

DRAENOG

Tad balch yn paratoi am briodas ei ferch - wedi cael crys newydd sbon; ond er chwilio a chwilio, methu dod o hyd iddo. Roedd y wraig wedi ei roi gyda'r dillad budr i'w golchi!



GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLLEN

Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd

* Teithiau Lleol a
Thramor

* Gwaith Contract

* Telerau arbennig i
benswynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, Tŷ Capel Disgwyllfa (Llanberis 871259)

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN:

Mae ymddiriedolwyr y Gronfa uchod, a sefydlwyd gan y Comisiwn Elusennau trwy'r arian a dderbyniwyd ar werthu safle'r Hen Ysgol, Ffordd Deiniol, yn gwahodd ceisiadau oddi wrth sfydliadau a mudiadau yn Neiniolen am gyfraniad o'r Gronfa. Dylid dweud bod y Gronfa wedi'i sefydlu at ddibenion elusennol, ac er budd cyffredinol trigolion Deiniolen.

Anfonwch y ceisiadau ynghyd â manylion llawn, mantolen a.y.b. mewn amlen wedi ei marcio "Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen" i Ysgrifennydd y Gronfa, 4 Tai Caradog, erbyn dim hwyrach na 31, Mawrth 1984.

DIOLCH: Dymuna Mrs Mary Thomas, 7 Vaynol Terrace ddiolch o galon i'w theulu a chyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

PROFEDIGAETH: Yn frawychus o sydyn lonawr 16 bu farw Mr Leslie Lambert, 80 Pentre Helen yn 64 mlwydd oed. Brodor o Empingham oedd, ond daeth yma i fyw 41 o flynyddoedd yn ôl pan briododd â'r ddiweddar Megan Lambert a fu farw 5 mlynedd yn ôl, ac ni fu'n hapus iawn ar ôl hynny. Roedd yn boblogaidd iawn ymysg llawer iawn o ffrindiau. Gweithiodd yn y chwarel am bymtheng mlynedd ar ôl dod o'r fyddin, ac yna yn Dennis Ferranti, Bangor, am 20 mlynedd, lle roedd yn uchel iawn ei barch.

Gadawodd un ferch a dau fab, chwaer a brawd yn Llundain i alaru ar ei ôl. Bu'r angladd lonawr 19 yng Nghapel Ebenezer, ac yna ym Mynwent Macpelah, Deiniolen.

Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis, a'r organydd oedd Mr John Jones, Ceris.

Dymuna'r plant a'r teulu oll ddatganeu diolchgarwch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Yn arbennig i Mr Myrddin Pritchard, Llanberis, y Parch Trefor Lewis ac i weithwyr Ffatri Dennis Ferranti am eu caredigrwydd. Diolch yn fawr i bawb.

EGLWYS LLANDINORWIG: Ddydd Mawrth lonawr 10 bu farw ein horganydd, Mr John D. Edwards. Dyma golled fawr eto i Eglwys Llandinorwig, gan fod Mr Edwards wedi bod yn organydd am hanner can mlynedd, a bu am flynyddoedd yn aelod gwerthfawr o Gyngor Plwyfol Eglwysig.

Er nad oedd wedi cael iechyd rhy dda ers rhai blynyddoedd bellach,

roedd ôl y graig arno yntau, gan iddo ddioddef o effeithiau'r llwch, ar ôl gweithio yn y Chwarel am flynyddoedd, fe fu'n selog iawn i Eglwys Crist, ac yn organydd medrus dros ben.

Un peth a darai'r bobl oedd yn bresennol yn yr angladd, oedd, nad oedd yr organ yn gweithio, oherwydd nam, ar y system drydan, ac efallai mai tawel y dylai'r organ fod ar y dydd hwn, fel gwerthfawrogiad o ffyddlondeb i Mr Edwards.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, DISGWYLLFA:

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd nos lau yr 2il o Chwefror. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Miriam Lewis, a chroesawyd y swyddogion newydd, sef Mrs B.W. Davies, Pentre Helen, Trysorydd, a Mrs Helen Jones, Ysgrifennydd.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Mr a Mrs W. Hughes, Caradog Place ar ddathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol. Hir oes iddynt.

Cydymdeimwyd â theuluoedd y ddiweddar Mrs M. Parry, Mrs M. Williams, a Mrs Gladys Williams.

Estynnwyd hefyd cofion cynnes at y rhai hynny o'r aelodau sydd wedi bod ag anhwylder arnynt, sef Mrs D. Pritchard, gartref o ystyby Gobowen, Mrs J. Grindle, Mrs Elsie Davies a Mrs Rees Owen.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos lau 1af o Fawrth, pryd y gwneir trefniadau ar gyfer swper blynyddol y Chwiorydd. Erfynnir am eich presenoldeb yno, os bydd y tywydd yn caniatáu, a chroesewir chwi fel Chwiorydd i ymuno â ni.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Ganolfan nos Lun lonawr 16 am saith o'r gloch, o dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Williams. Cafwyd noson hynod o ddiddorol gan y gŵr gwadd Mr Hugh Williams, Paradwys, Gaerwen. Soniodd am y cyfnod darlledu cynnar o Fangor. Diolchwyd iddo gan Mrs Marian Williams, Ffordd Deiniol.

I ddiweddu'r noson cafwyd paned o de a bisgedi (rhoddedig gan Mrs Medwen Griffith a Mrs Morris). Enillwyd y raffl gan Mrs Betty Wyn Davies.

Bydd cinio Gŵyl Dewi yn cael ei gynnal yn Llety, Caeathro, ar nos Wener, Mawrth 9. Enwau cyn gynted ag y mae modd os gwelwch yn dda i Mrs Marian Wyn Williams, 4 Tai Caradog, neu Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, Dinorwig.

DIOLCH: Dymuna David Wyn Jones, 3 Rhydfadog, ddiolch yn gynnes iawn i'w deulu, ei gyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd a'u cymorth parod, tra bu'n yr ystyby yn ddiweddar, yn cael triniaeth llawfeddygol.

Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn ysbytai Môn ac Arfon, Bangor ac Eryri Caernarfon.

Diolch arbennig i'r meddygon lleol am eu gofal ohono. Dymuna ddiolch hefyd i'r Parch Trefor Lewis am ei barodrwydd a'i gymorth yn ystod ei waeledd. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

SEINDORF: Bydd y Seindorf yn cymryd rhan mewn cyngerdd yng Nghlwb 'Crosville, Bangor Ddydd Gŵyl Ddewi. Swyddogion y Seindorf am y flwyddyn fydd: Ysgrifennydd: Mr M. Jones, Minafon, Clwt-y-bont; Trysorydd: Mr H.G. Jones, Llanrug; Llywydd: Mr G. Parry, Bro Dawel.

Enillwyr Clwb 200 am fis Chwefror - 1. rhif 115, £25, G. Oliver Jones, Bwthyn Gwyn; 2. rhif 21, £15, D. Evans, 3 Tai Gwledfa; 3. rhif 66, Mrs Glenda Morris, 13 Tal-y-Bont, Llanrug.

Dymunwn wellhad buan i Mr D.W. Jones, 3 Rhydfadog sydd yn aelod ffyddlon o Bwyllgr y Seindorf a Mr Goronwy Morris sydd yn aelod o'r Seindorf - y ddau wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon. Brysiwch wella.

Cynhelir Bingo yn Neuadd y Seindorf bob nos Wener yn dechrau am 7.30 o'r gloch.

Penillion Coffa am Mr Richard Mostyn Thomas (Dic y Rhydau)

Trist oedd hebrwng Richard Mostyn I briddellau hen y gro, Ond mwy trist oedd colli cyfaill, Fu yn gymwynaswr bro, Y mae angau weithiau'n gyfaill Pan fo bywyd dan y groes, Pan y derfydd cryfder einves O dan ludded byd a'i loes.

Hir y cofier gŵr y Rhydau, Yn Neiniolen ar ei hynt. a daw atgof melys heibio Am ei gwmni'r dyddiau gynt. Fe ddaw adlais o'i arabedd Trwy y fro henafol hon a direidi Dic y Rhydau A'i chwerthiniad heini llon.

Treuliodd oes ym mhlwyf Llan'iolen Yn braenaru'r tyndir sych Ac yn troi y corsdir diffwrth Gyda'i wŷdd o rych i rych. Tatw cynnar, swêd a bresych, Gwaith a gwenith gorau'r fro, Buches odro hardd a graenus Llafur oedd ei rinwedd o.

Galwai'n ddyddiol yn Neiniolen I gyfrannu ffrwyth ei dir. Roed hufenfa gŵr y Rhydau Gyda'r orau yn y sir. Bu'n haelionus trwy ei yrfa Ac yn noddî'r tlawd a'r gwan. Roedd ei gôd o hyd ar agor Ar ei daith o fan i fan.

Cyd-ddiolchwn wrth ei hebrwng Ddydd ei arwyl ar ei daith

Tua Rhos y Pererinion Wedi'r diwyd flwyddi ith. Roedd y Llan yn annwyl iddo, Iddi bu yn golofn gref O mor hawdd i ninnau heddiw Ddweud fb Dic yn nef y nef.

Boed i'w briod a'r holl deulu Gymorth y goruchaf Dduw, Dyro iddynt ffydd ein cyfaill Rho dyennaint ar ei briw. Diolch wnawn am ŵr amryddawn, Cyfaill aelwyd, cyfaill bro, Rho i ninnau sydd yn agos Beth o rin ei gryfder o.

JOHN DAVID EVANS (Joni'r Iard)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Chwefror 6 dan arweiniad y llywydd. Darllenodd y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Cafwyd noson ddiffr iawn gan Miss Moeller, Clwt-y-bont yn dangos sleidiau o Dwrci i ni y rhai a dynnwyd ganddi ar ei gwyliau yno. Diolchwyd i Miss Moeller gan Mrs J. Eirlys Williams. Darllenodd Miss Moeller y cofnodion o'r Ffederasiwn yng Nghaernarfon ar Ionawr 28. Cafwyd adroddiad cryno iawn ganddi. Miss Moeller a'r ysgrifennydd fu'n ein cynrychioli yng Nghynhadledd yng Nghaernarfon. Rhoddwyd y te gan Mrs M. Thomas, Mrs H.J. Thomas, a Miss Nancy Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs Beti Wyn Davies. Mynegwyd cydymdeimlad â Mrs Mary Thomas a Mrs Jane Jones oedd wedi colli eu brodyr yng nghyfraith.

Llongyfarchwyd Mrs Mary Thomas hefyd ar ddathlu ei phen-blwydd y Sadwrn cynt yn 80 oed, a chanwyd 'Pen-blwydd hapus' iddi.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 5, sef 'Swper i'r Oedolion'.

"Nid grym sy'n cadw'r heddwch. Dim ond trwy gyd-ddealltwriaeth y gellir ei gyflawni." *Albert Einstein.*

"Mae rhyfeloedd yn gynion gwael i gerfio dyfodol heddychlon." *Martin Luther King.*

"Na fydded i un dafn o ddŵr sy'n disgyn ar wyneb y tir lifo i'r môr heb iddo yn gyntaf gael ei ddefnyddio er budd pobl." *Parakrama Bahu, Brenin Sri Lanka (1153-1186)*

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

DEINIOLEN


C Gwasanaeth 24 awr –
A unrhyw bellter
B Eich rhedeg i'r Maes
S Awyr neu'r Porthladd

Ffôn: Llanberis

871591

J.M. WILLIAMS, 12 TAI FAENOL

CROESAIR MAWRTH



AR DRAWS

1. Cymdeithas wleidyddol (5)
5. Hadau (5)
7. Dorian yn gymysglyd ac heb orffen yn gwrando arni! (5)
8. Gostwng (5)
9. Chwalwr! (5)
10. Bangor, er enghraifft (5)
11. Llidiart (3)
12. Sgwrsio (7)
16. Rhif (3)
17. Oddi ar - amser (3)
19. Aeth Doli i bob cyfeiriad ar adeg pleidleisio (8)
24. "Ac ..., nid Myfi." Drama gan John Gwilym Jones (3)
25. Gwraig (5)
26. Gwroniaid (5)
27. Y flwyddyn hon (5)
28. Celwyddog (5)
29. Gwrthwynebydd (5)
30. Pryfed bach coslyd (5)

I LAWR

1. Cas wy (7)
2. Enghraifft arall o 10 (8)
3. Aderyn Branwen (6)
4. ... a rhannau ohono (6)
5. ... y Beirdd (6)
6. Cryfhau (5)

13. Asyn (3)
14. America - talfyriad (3)
15. Mynd ar neges (8)
18. Dodrefn (7)
20. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei ddangos wrth fynd yn hŷn! (6)
21. Mis (6)
22. Cuchiog (6)
23. "... yr Undeb" (5)

Un llythrennol yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th. Anfonwch eich cynigion at: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd £2.00 o wobwr i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

Atebion Croesair Chwefror

AR DRAWS. 1. Rhigymau 5. Sucan 8. Dameg 9. Seithfed 10. Anterliwt 12. Yul 13. Cryman 14. Ychydig 17. Fro 18. Llongyfarch 20. Marwaidd 21. Diota 23. Dwsin 24. Storiwr.
I LAWR. 1. Rhodfa 2. Gem 3. Magwrf 4. Unsain 5. Seiat 6. Cyflymdra 7. Nadolig 11. Twyllodrus 13. Cyfamod 15. Chwyldro 16. Anaddas 18. Llain 19. Chwaer 22. Oni. Enillydd: Elfyn Williams, Pennant, Nant Peris.

DYDDIADUR

1, Iau - DEINIOLEN - Cymdeithas Chwiorydd Disgwyfha
WAUNFAWR - Sefydliad y Merched yn dathlu Gŵyl Ddewi.
Clwb Gwryfai yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda chyngerdd gan blant yr Ysgol Gynradd.
BETHEL - Clwb Bro Bethel - Taith i Goleg Pencraig, Llangefni.
2, Gwener - LLANBERIS - Te yr Henoed.
WAUNFAWR - Cinio Gŵyl Ddewi yr Ysgol Feithrin yng Ngwesty'r Dingles.
YR ARDAL - Cinio Gŵyl Ddewi Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.
DEINIOLEN - Bingo yn Neuadd y Seindorf am 7.30.
YR ARDAL - Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd.
LLANRUG - Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Erw Fair, Llanberis.
3, Sadwrn - LLANBERIS - Y Cwmni Drama yn perfformio 'Pedwarawd mewn B Fflat' yn Ysgol y Berwyn, Bala.
5, Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist dan nawdd y St. Johns yn y Ganolfan am 7.30.
9, Gwener - YR ARDAL - Cyfarfod dan nawdd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn yr Ystafell Gymuned, Llyfrgell Arfon Dwyfor, Caernarfon am 7.30.
DEINIOLEN - Cinio Gŵyl Ddewi Merched y Wawr yn Llety, Caeathro. Bingo yn Neuadd y Seindorf am 7.30.
PENISARWAUN - Noson 'Cawl a Chân' gydag Arwel Jones am 6.30.
10, Sadwrn - YR ARDAL - Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail.
12, Llun - YR ARDAL - Theatr Bara Caws yn perfformio 'Y Fodrwy' yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30.

LLANBERIS - Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
13, Mawrth - WAUNFAWR - Theatr Bara Caws yn perfformio 'Y Fodrwy' yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
LLANRUG - Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Foelas yng nghwmni Mr Ifor Bowen Griffith.
15, Iau - LLANRUG - Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Pedwarawd mewn B Fflat' yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30.
YR ARDAL - Noson Goffi CND Dyffryn Peris yn y Ganolfan, Llanberis am 7.30.
16, Gwener - LLANBERIS - Te yr Henoed.
CWM Y GLO - Eisteddfod Clwb y Graig.
DEINIOLEN - Bingo yn Neuadd y Seindorf am 7.30.
19, Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist dan nawdd y St. Johns yn y Ganolfan am 7.30.
21, Mercher - CWM Y GLO - Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.
23, Gwener - DEINIOLEN - Bingo yn Neuadd y Seindorf am 7.30.
CWM Y GLO - Bingo dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan Gymdeithasol am 7.00.
LLANBERIS - Y Cwmni Drama yn perfformio yn Llangefni.
24, Sadwrn - YR ARDAL - Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor.
BETHEL - Cinio Blyneddol Clwb y Rhos yng Nghastell Cidwm.
26, Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan am 7.30.
29, Iau - LLANRUG - Noson Goffi dan nawdd y Seindorf yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
30, Gwener - LLANBERIS - Te yr Henoed.

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?**

Mae Uned Diwydiannau Bychain yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

**Welsh
Development Agency**

Am yswiriant ar gyfer eich car, tŷ,
busnes, bywyd neu unrhyw angen arall
cysylltwch â

Robin Jones a'i Gwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant
a Morgeisi

Llys Alaw
18 Stad Eryri
Bethel

Ffôn
Y Felinheli 670140

Regent House
Y Sgwâr
Llanrwst

Ffôn
Llanrwst 641154

CHWARAEON

SAGA TARIAN DEINIOLEN

Yn ystod blynyddoedd cynnar y 1920au cynhelid cystadlaethau pêl-droed yn Neiniolen i dimau'r cylch. Roedd y cae pêl-droed y pryd hwnnw ar y caeau lle mae tai Maes Gwylfa yn sefyll yn awr. Cyflwynir tarian bren anferth i'r tîm buddugol, a cheiliog yn sefyll ar bêl wedi ei gerfio arni. Mae plac ar y darian yn darllen "Deiniolen Football Competition - 1923". Yr oedd un amod yn gysylltiedig â'r gystadleuaeth: pa dîm bynnag a enillai dair gwaith yn olynol fyddai perchen y darian.

Cynhelid dwy gystadleuaeth - un i dimau iau, a'r llall i dimau hŷn. Rhaid oedd talu i gofrestru: chwe swllt i bob tîm iau, a deuddeg swllt i'r timau hŷn.

Y tîm cyntaf i ennill y gystadleuaeth oedd Llanberis Comrades, yn cael eu dilyn gan Glasinfryn Rangers, cyn i dîm o Ddeiniolen ei hun ennill yn nhymor 1924-25, sef Ebenezer United. Y flwyddyn ddilynol, Rhiwlas F.C. aeth â'r darian, ac felly hefyd yn 1926-27. Pan gynhaliwyd y gystadleuaeth yn 1927-28, roedd gan Rhiwlas felly, gyfle i ennill y darian am y trydydd tro, ac felly, ei chadw am byth.


Yn y gystadleuaeth iau am y flwyddyn honno, enillodd tîm Clwt-y-bont yn y gêm derfynol yn erbyn tîm o Fangor. Yn anffodus, ychydig iawn o ddiddordeb oedd yn y gystadleuaeth hŷn, a dau dîm yn unig oedd wedi cofrestru, sef Glasinfryn Rangers (yr enillwyr cyntaf) ac wrth gwrs, y ffefrynau, Rhiwlas. Ceisiwyd perswadio Clwt-y-bont i gofrestru i'r gystadleuaeth hŷn hefyd, ond yr oedd y chwaraewyr eisoes wedi talu chwe swllt yn y gystadleuaeth iau, ac yn teimlo na allent fforddio talu deuddeg swllt arall; felly, penderfynodd pwyllgor y gystadleuaeth ganiatáu iddynt chwarae am chwe swllt ychwanegol.

Penderfynwyd fod Glasinfryn a Clwt-y-bont i chwarae ei gilydd i weld pwy gâi roi sialens i dîm Rhiwlas yn y gêm am y darian. Clwt-y-bont oedd yn fuddugol, ac yr oedd pawb yn edrych ymlaen am y gêm derfynol, gyda'r mwyafrif yn cefnogi Clwt-y-bont - doedd pentrefwyr Deiniolen a'r cylch ddim am weld y darian yn diflannu am byth i bentref 'estron' fel Rhiwlas!

Chwaraewyd gêm gyfartal (1-1) rhwng y ddau dîm, a chynyddai'r tensiwn ar gyfer yr ail gêm. Daeth Band Deiniolen i'r cae i ddiddori y dorf, ac yr oedd blas ar y gweiddi a'r cefnogi. Ar ddiwedd gêm gyffrous, Clwt-y-bont oedd y buddugwyr o 2 gôl i 1. Siomedig iawn oedd tîm Rhiwlas o sylweddoli fod eu cyfle i ennill y darian am byth wedi diflannu.

Mae'n ymddangos mai dyma'r tro olaf i'r gystadleuaeth gael ei chynnal, a diflannodd y darian hefyd. Ond tua wyth mlynedd yn ôl, daeth Mr W.S. Griffith, 6 Victoria Terrace, Deiniolen ar drywydd y darian, ac y mae bellach ganddo gartref. Roedd yn aelod o dîm buddugol Clwt-y-bont yn 1927-28, ac ef fu'n ddigon caredig i adrodd yr hanes wrthyf.

Y tro nesaf cawn hanes tîm Clwt-y-bont yn ennill cystadleuaeth debyg yn Llanrug, a sut y bu i elfen o dwyllo gan un tîm gael ei ddarganfod gan dîm arall. Cofiwch ddarllen hanes 'Twyll Cwpan Llanrug' yn y rhifyn nesaf.




Tarian 'Deiniolen Football Competition'. Cynhaliwyd y gystadleuaeth am 6 blynedd rhwng 1923 ac 1928.

CHWARAE I GYMRU

Llongyfarchiadau i Malcolm Allen am ennill ei Gap cyntaf wrth chwarae pêl-droed o dan 18 oed i Gymru yn erbyn Gogledd Iwerddon yng Nghasnewydd yn ddiweddar. Gêm gyfartal 2-2 oedd y canlyniad. Dechreuodd Malcolm ei chwarae gyda thîm pêl-droed dan 16 oed Deiniolen yng nghynghrair Gwyrfaï pan oedd yn 10 oed, a bu'n ffyddlon i'r tîm hyd ei arwyddo gan Watford yn yr Adran Gyntaf. Hefyd bu Malcolm yn chwarae gyda thîm Ysgol Brynrefail a nifer o dimau lleol.

Bydd yn chwarae ei ail gêm i'w Wlad yn Wrecsam ym mis Mawrth.

Pob lwc a llwyddiant i Malcolm yn y dyfodol.



Hen lun yn dangos pentref Ebenezer (Deiniolen). Yma, ar y cae islaw Capel Disgwylfa y cynhelid y cystadlaethau pêl-droed yn y 1920au.

DYMA LUN LLANRUG!



Dyma lun o dîm pêl-droed Llanrug yn dathlu eu llwyddiant ar ddiwedd tymor 1947-48, y tu allan i Gastell Bryn Bras. Roedd y tîm wedi ennill pencampwriaeth y Gynghrair a Chwpan Alves. Yn y rhes flaen ar y dde mae Von Cramm, Almaenwr oedd yn garcharor rhyfel mewn gwerysll yn y Bontnewydd. Roedd yn gweithio ar fferm ym Meddgelert, a rhaid oedd i aelodau Llanrug fynd i'w nôl a'i gludo'n ôl wedyn. Bu gyda'r tîm am ddau dymor.

Aelodau'r pwyllgor a'r tîm oedd: **Rhes ôl (ch. i'r dde):** Now Crawia, Tom Alun, Bert Jones, Arfon Davies a Tom Glan Gors. **Rhes ganol:** Evan Wyn Evans, Cledwyn Jones, Hugh Vernon, Evan Owen, Tommy Jones. **Eistedd:** Wil Pritchard, y Parch D. Morris Jones, Mr Welsh (perchennog Bryn Bras), Gwilym Owen, Mr Wesley, Tom Glyn. **Rhes flaen:** Jack Lewis, Glyn Roberts, Pyrs Jones, Von Cramm. Llun gan Mr T. Jones, 6 Rhos Rug, Llanrug.

OND DYMA'R WAUNFAWR!



Roedd sawl un yn gyfarwydd â'r llun ar dudalen ôl Eco rhif 89, ond derbyniwyd manylion manwl iawn gan Mr Ian Oliver o Rhif 4, Min Afon, North Road, Caernarfon. Brysiodd i ddweud mai tîm pêl-droed y **Waunfawr** ydoedd ac nid tîm Llanrug, ac mae'n enwi'r chwaraewyr fel a ganlyn:

Rhes ôl: J. Awstin Jones, Hefin Jones, Ffred o Bethesda, George o Rosgadfan (y gôl-geidwad), Alun Jones o Gaernarfon, Gwilym Emma o Ddeiniolen, Raymond Griffith, a Morus Williams o'r Groeslon, Waunfawr.

Rhes flaen: Bachgen o Fethesda, Leslie Jones, Rol Jones o Gaernarfon, Elwyn Parry a Glyn Mij o Lanrug.

Diolch iddo am y wybodaeth.